



Arolwg Thematig

Rheoli a goruchwyllo dynion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw

Arolwg gan Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Carchardai EM

Ionawr 2019

Cydnabyddiaethau:

Arweiniwyd yr arolwg hwn gan Arolygydd EM Wendy Martin, a gefnogwyd gan dîm o arolygwyr staff gweithredu, ymchwil a chorfforaethol. Arweiniodd Sandra Fieldhouse Arolygydd Carchardai AEM y gwaith a gyflawnwyd yn y ddalfa. Y rheolwr sy'n gyfrifol am y rhaglen arolwg hon yw Helen Davies. Hoffem ddiolch i bawb oedd yn rhan o'r arolwg mewn unrhyw fodd. Heb eu help a'u cydweithrediad, ni fyddai wedi bod yn bosibl cynnal yr arolwg. Noder trwy'r adroddiad cyfan mae'r enwau yn yr enghreifftiau arfer wedi'u newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

© Hawlfraint y Goron 2019

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, yn unol ag amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

1st Floor Civil Justice Centre

1 Bridge Street West

Manchester

M3 3FX

Rhagair

Mae nifer y dynion sydd wedi'u heuogfarnu o droseddau rhywiol wedi cynyddu'n arwyddocaol ers i ni gyflawni arolwg thematig o'r gwaith yn 2010. Mae nifer y troseddwy'r rhyw cofrestredig yn fwy na 58,000 ar hyn o bryd. Mae troseddwy'r rhyw yn cynrychioli tua un ymhob pum achos o lwyth gwaith y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yn gyffredinol. Er y canolbwynt hwn a thraul amser, gwnaethpwyd cynnydd annigonol ers i ni adrodd y tro diwethaf, ar yr ymddiriedolaethau prawf fel yr oeddent adeg honno yn 2010.

Rydym yn disgwyl i'r gwasanaethau carchar a phrawf weithio gyda throseddwy'r rhyw i leihau'r risg eu bod yn aildroseddu ac i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed. Yn yr achosion a arolygwyd gennym, nid oedd digon o waith yn cael ei wneud, naill ai yn y carchar neu ar ôl rhyddhau, i leihau aildroseddu neu i ddiogelu'r cyhoedd.

Ceir damcaniaethau cadarn a mawr eu parch sy'n cynnal gwaith effeithiol gyda throseddwy'r rhyw, y dylid eu defnyddio'n llawer mwy eang yn y carchardai yn ogystal â'r gymuned. Canfuwyd gennym na wneir defnydd digonol o'r rhaglenni achrededig ar gyfer troseddwy'r rhyw yn y gymuned ac mewn carchardai. Mewn gormod o achosion yn y carchardai, canfuwyd gennym mai ychydig, os unrhyw beth, oedd yn cael ei wneud i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu, yn enwedig mewn achosion nad oedd yn addas ar gyfer rhaglen achrededig. Rydym yn gwerthfawrogi'r pwysau sydd ar arweinwyr carchar a phawb sy'n gweithio mewn carchardai, ond nid yw hyn yn gwneud synnwyr o gwbl i'r cyhoedd nac i'r pwrs cyhoeddus.

Canfuwyd gennym na ddeallir y damcaniaethau sy'n cynnal arferion effeithiol yn dda iawn gan staff, ac ni chynhwysir y dulliau a'r offer mewn arferion. O ganlyniad, mae nifer o staff sydd wedi ymrwymo i wneud eu gorau wrth weithio gyda'r troseddwy'r hyn yn ei chael hi'n anodd cydbwysu dull cadarnhaol sy'n edrych i'r dyfodol gydag un sy'n canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd. Mae'n ofyniad parhaus trwy gydol y cyfnod prawf, ond yn aml mae'n gwbl i'r gwrthwyneb wrth oruchwylio troseddwy'r rhyw.

Ar y llaw arall, mae'r NPS a Gwasanaeth Carchardai EM yn dibynnu'n ormodol ar gyfathrebu electronig sy'n golygu nad yw staff yn gallu dethol y pethau pwysig ymhlith y pethau amherthnasol. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu llethu, ac nad ydynt yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth addas ar gyfer y gwaith sensitif a chymhleth hwn. Ar lefel strategol, ymgwymerir â gwaith i fynd i'r afael â bylchau a ganfuwyd mewn arferion, ond mae angen symleiddio'r gwaith hwn a rhoi gwell canolbwynt iddo yn ein barn ni, er mwyn treiddio trwyddo i'r maes ac i fod yn effeithiol.

Ni all cyfnod trosglwyddo troseddwr o'r carchar i'r gymuned fod yn ddi-dor, ond ar gyfer y grŵp hwn o droseddwy'r, canfuwyd gennym ei fod wedi'i reoli'n wael, ar y cyfan. Nid yw cynllunio ar gyfer rhyddhau'n hanner digon da, a 'dim digon, yn rhy hwyr'. Mae camau gweithredu'r trefniadau newydd (model Rheoli Troseddwy'r yn y Ddalfa (OMIC)) yn cael eu datblygu. Mae ganddynt y potensial i reoli cynnydd a throsglwyddo pob troseddwr yn fwy effeithiol. Nid ydym yn diystyru pa mor heriol y bydd y prosiect hwn i'w weithredu'n llawn.

Yn y tymor byr, dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i anghenion plant a dioddefwyr, i'w diogelu'n well. Yma, roeddem yn falch i weld gwaith da gyda dioddefwyr gan swyddogion cyswllt dioddefwyr. Byddai'n fanteisiol pe byddent yn gallu gweithio'n agosach gyda swyddogion sydd â chyfrifoldeb yn ystod cyfnodau allweddol, yn enwedig pan fo rhyddhau ar fin digwydd.

Bydd y manylion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn galluogi Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, yr NPS a Gwasanaeth Carchardai EM i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a lle y mae angen gwelliannau. Mae ein hargymhellion yn canolbwyntio ar yr hyn rydym yn eu hystyried yn flaenoriaethau allweddol.

Y Fonesig Glenys Stacey

Prif Arolygydd Prawf EM

Ionawr 2019

Peter Clarke CVO OBE QPM

Prif Arolygydd Carchardai EM

Cynnwys

Rhagair

Ffeithiau allweddol

Cyd-destun cam-drin domestig

Crynodeb gweithredol

Argymhellion

1. Cyflwyniad

1.1 Pam y thematig hwn?

1.2 Cefndir

1.3 Nodau ac amcanion

1.4 Amlinelliad yr adroddiad

2. Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth

2.1 Yr hyn a ganfuwyd gennym

2.4 Casgliadau a goblygiadau

3. Gwaith a gyflwynwyd yn y ddalfa

3.1 Yr hyn a ganfuwyd gennym

3.2 Casgliadau a goblygiadau

4. Gwaith i leihau aildroseddu yn y gymuned

4.1 Yr hyn a ganfuwyd gennym

4.2 Casgliadau a goblygiadau

5. Diogelu'r cyhoedd

5.1 Yr hyn a ganfuwyd gennym

5.2 Casgliadau a goblygiadau

Cyfeiriadau a darllen pellach

Atodiad 1: Geirfa

Atodiad 2: Methodoleg

Ffeithiau allweddol

646,000 Amcangyfrif o nifer y dioddefwyr ymosodiadau rhywiol yn 2016/2017 yn Lloegr a Chymru¹

106,819 Nifer yr achosion dan reolaeth yr NPS yn y gymuned ac yn y ddalffa ar Fawrth 31 2018²

1 ymhob 5 Bras gyfran o lwyth gwaith yr NPS sy'n derbyn goruchwyliaeth am droseddau rhyw³

58,637 Nifer y troseddwy rhyw cofrestredig ar Fawrth 31 2018⁴

98% Cyfran y troseddwy rhyw cofrestredig a reolwyd ar Lefel 1 Trefniadau Aml-Asiantaeth Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) ar Fawrth 31 2018

13,580 Nifer y carcharorion oedd yn y carchar am droseddau rhyw ar Fehefin 30 2018 **Error! Bookmark not defined.**

19% Canran y boblogaeth carchar a ddedfrydwyd i gyfnod yn y carchar am droseddau rhyw ar Fehefin 30 2018

1,213 Nifer y rhaglenni achrededig a gwblhawyd yn y gymuned am droseddu rhywiol, 2016/2017⁵

¹Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018). *Troseddau rhyw yn Lloegr a Chymru: y flwyddyn yn diweddu mis Mawrth 2017*.

² Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018). *Ystadegau chwarterol Rheoli Troseddwy: mis Ionawr i fis Mawrth 2018*.

³ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018). Data heb eu cyhoeddi ar gyfer Mawrth 31 2018.

⁴ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018). *Adroddiad Blynyddol Trefniadau Aml-asiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd 2017/2018*.

⁵ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) *Crynhoad Blynyddol HMPPS 2017/18*. Rydym yn nodi bod data ar ddechrau ac ar ddiwedd rhaglenni achrededig yn y gymuned yn anghyflawn ac heb eu cyhoeddi ar gyfer y 12 mis hyd at fis Mawrth 2018.

Cyd-destun yr arolwg

Mae'r diffiniad o drosedd rhywiol wedi newid gydag amser, er y gellir ei rannu fel arfer i bedwar categori (Sanders, 2017):

- gweithrediadau rhywiol gyda chyswllt
- gweithrediadau rhywiol heb gyswllt, er enghraifft dinoethiad anweddu, llygadu, troseddau ar y rhyngwrwyd neu gyfarwyddiadau i ddiodefwyr
- delweddau/sain/testun difriol o blant
- towtio a masnachu.

Mae *Deddf Troseddau Rhywiol 2003*, fel y'i diwygiwyd gan gyfres o ddeddfau eraill, gan gynnwys *Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014* a *Deddf Troseddu Difrifol 2015*, yn aros fel y prif ddeddfwriaeth yn y maes hwn.

Rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaeth prawf

Ym mis Mehefin 2014, o dan raglen *Trawsnewid Adsefydlu* y llywodraeth, disodlwyd 35 o ymddiriedolaethau prawf gan 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRCs) ac NPS sector cyhoeddus newydd, a gyflwynwyd trwy saith adran prawf. Cyhoeddwyd argraffiad cyntaf model gweithredu newydd yr NPS ym mis Gorffennaf 2016.

Mae'r NPS yn gyfrifol am reoli pob troseddwr rhyw cofrestredig (RSO) sydd yn y ddalfa ar hyn o bryd. Mae'r NPS hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth i lysoedd i'w helpu i ddod i benderfyniadau dedfrydu ac am gwblhau archwiliadau angenrheidiol gyda'r heddlu a gwasanaethau plant. Mae'n rheoli pob achos sydd â risg uchel neu uchel iawn o niwed, a'r rhai hynny a reolir trwy MAPPA. Rheolir pob RSO o dan MAPPA; rheolir 98% ar hyn o bryd ar Lefel 1 (asiantaeth unigol, h.y. prawf neu'r heddlu). Mae'r NPS hefyd yn hwyluso'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (VCS) statudol ar gyfer dioddefwyr troseddwr sydd wedi derbyn dedfryd o 12 mis neu fwy yn y carchar.

Mae CRCs yn rheoli achosion a aseswyd wrth eu dedfrydu yn rhai sy'n peri risg isel neu ganolig o niwed i eraill. Goruchwylir nifer fach nad ydynt yn RSOs gan CRC. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn bobl a gyflawnodd troseddau rhyw cyn y cyflwynwyd y ddeddfwriaeth ynghylch cofrestru troseddwr rhyw ym 1997. Mae'r fath achosion yn llai na 1% o lwyth gwaith y CRC ac nid ydynt yn cynnwys y rhai a asesir fel risg uchel o niwed.

Cysylltiad NPS â dioddefwyr⁶

Daeth y VCS yn gyfrifoldeb statudol i'r Meysydd Prawf fel yr oeddent adeg honno, o dan *Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004*. Lluniwyd y cynllun i sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn

⁶Rydym yn cydnabod y gellid cyfeirio at bobl sydd wedi bod yn ddiodefwyr trosedd, gan gynnwys troseddau rhyw, naill ai fel 'dioddefwr' neu fel 'goroeswr'. Mae asiantaethau cyfiawnder troseddol yn aml yn defnyddio 'dioddefwr' gan mai hwn yw'r term cyfreithiol, ac rydym wedi mabwysiadu'r confensiwn hwn yn ein hadroddiad tra'n parchu y gall unigolion sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol ddefnyddio'r ddau derm wrth siarad am eu profiadau.

diweddariadau rheolaidd ynghylch troseddwr, ac yn gallu cyflwyno sylwadau ynghylch trefniadau rhyddhau troseddwr a derbyn gwybodaeth am amodau trwydded. Mae'r cyfrifoldeb ynghylch darparu cefnogaeth i ddiodeffwyr yn aros gyda'r gwasanaethau cefnogi diodeffwyr. Mae sail y cynllun wedi aros yr un peth yn y bôn ers ei greu, gyda chanolbwynt ar gyswllt cychwynnol, diweddariadau blynyddol a chyswllt yn ystod penderfyniadau allweddol trwy gydol y ddedfryd.

Mae'r VCS wedi bod yn destun craffu yn dilyn achos John Worboys. Yn 2018, cwblhaodd AEM Prawf dasg i gasglu ffeithiau mewn perthynas â'r achos hwn. Canfuwyd, er bod NPS wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyfredol, roedd yn glir nad oedd y cyfarwyddiadau hyn bob amser wedi cwrdd ag anghenion y diodeffwyr a oedd yn rhan o'r achos hwnnw. Yn ogystal, canfuwyd sawl enghraifft o ohebiaeth o ansawdd gwael a thafenni gwybodaeth oedd wedi dyddio. Fel ymateb, mae'r NPS wedi adolygu'r hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Cyswllt Diodeffwyr ac wedi diweddarau'r llythyron templed.

Ymyriadau troseddwr rhyw

Mae'r NPS yn gyfrifol am ddarparu rhaglenni troseddwr rhyw i ddynion yn y gymuned. Cyfrifoldeb Gwasanaeth Carchardai EM yw rhaglenni gwaith a gyflwynir i garcharorion. Mae rhaglenni achrededig i droseddwr rhyw wedi eu newid yn arwyddocaol yn ystod y 18 mis diwethaf. Cymerwyd lle cyfres o raglenni triniaeth troseddwr rhyw (SOTP), a gynhaliwyd o 2001 yn y ddalfa yn ogystal ag yn y gymuned, gan raglen arall yn ddiweddar.

Canfu gwerthusiad o effeithlonrwydd craidd rhaglen yr SOTP yn y ddalfa fod mwy o droseddwr rhyw yn aildroseddu o leiaf un drosedd rhywiol yn ystod y cyfnod dilynol na throseddwr tebyg nad oeddent wedi derbyn yr ymyrraeth hon (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017) Yn dilyn y gwerthusiad, tynnodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) y rhaglen hon yn ôl. Gwnaethpwyd penderfyniad hefyd i beidio â chyflwyno'r rhaglen estynedig yn y ddalfa, a ddilynwyd gan y rhaglenni cymuned a etifeddwyd.

Tra bod nifer fach o raglenni a etifeddwyd yn dod i ben yn y gymuned, mae rhaglenni Horizon wedi cymryd lle'r rhain yn y ddalfa yn ogystal â'r gymuned. Mae Gwasanaeth Carchardai EM hefyd wedi cyflwyno Kaizen ar gyfer carcharorion risg uchel ac sydd ag anghenion uchel. Mae'r ddwy wedi'u gwreiddio yn y dull 'sy'n seiliedig ar gryfderau' i leihau troseddu ac, yn wahanol i SOTP, maent ar gael i'r rhai sy'n gwadu eu troseddau.

Rolau a chyfrifoldebau Gwasanaeth Carchardai EM

Newidiodd y ddarpariaeth o wasanaethau adsefydlu mewn carchardai yn 2014 pan gyflwynwyd *Trawsnewid Adsefydlu*. O 121 o garchardai, dynodwyd 87 yn garchardai adsefydlu, a gyflwynodd adsefydlu dan arweiniad CRC a gwasanaethau Drwy'r Giât i bob carcharor.

Mae HMPPS ar hyn o bryd yn ymgymryd â dau brif brosiect yn ystâd y carchardai: Trawsnewid Ystâd Carchardai (PET) a Rheoli Troseddwr yn y Ddalfa (OMiC).

Nod PET yw aildiffinio swyddogaeth pob sefydliad, categoreiddio pob un fel carchar derbyn, carchar hyfforddi (gan gynnwys rhai safleoedd arbenigol) neu garchar adsefydlu. Y nod yw gwneud y broses o symud carcharorion, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw, yn haws. Mae cynlluniau hefyd i gynyddu'r nifer o garchardai agored a fyddai'n dal troseddwr rhyw, sydd ar hyn o bryd wedi'u cyfyngu i dri.

Mae prosiect yr OMiC yn cyflwyno model newydd o reoli troseddwr, yn ogystal â rôl gweithiwr allweddol newydd ym mhob carchar caeedig i ddynion. Nod y prosiect yw hyrwyddo gwell rheolaeth o droseddwr a rheoli risg yn effeithiol.

Mae sawl Cyfarwyddyd Carchar a Phrawf sy'n rheoli gwaith gyda throeddwy'r rhyw a thargedau a osodir ar gyfer y nifer o ddynion sy'n cwblhau rhaglenni triniaeth.

Crynodeb Gweithredol

Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth

Er bod gan Fwrdd Rheoli Troseddwy Rhywiol yr HMPPS gyfrifoldeb strategol cyffredinol am gyflwyno gwaith gyda throseddwy rhyw, mae nifer o grwpiau a thimoedd eraill yn dylanwadu'r cyfeiriad strategol a chyflwyniad gweithredol y gwaith. Canfuwyd gwahaniaeth gennym rhwng y ffordd mae'r timoedd hyn yn disgrifio sut y cyflwynir gwaith gyda throseddwy rhyw, a'r hyn a ganfuwyd gennym mewn gwirionedd. Dylid gwneud mwy i dynnu'r gwahanol feysydd o waith at ei gilydd, i osgoi dull digyswllt.

Heb ddadansoddiad anghenion cyffredinol troseddwy rhyw, nid oes gan HMPPS lun cyflawn o broffil y grŵp hwn o unigolion.

Ceir ymrwymiad i ddatblygu rhaglenni a hysbysir gan dystiolaeth sydd yna'n cael eu gwerthuso i fod yn rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth. Canfuwyd gennym nad yw nifer o staff NPS eto'n deall y dull sy'n seiliedig ar gryfderau i weithio gyda throseddwy rhyw yn ddigon da. O ganlyniad, nid oedd wedi ei gynnwys mewn arfer. Canfuwyd gennym fod arweiniad ac hyfforddiant, a gyflwynir yn electronig, yn aneffeithiol iawn ar y cyfan. Yn ôl pob golwg, ni amcangyfrifwyd yn ddigon uchel faint yw anghenion proffesiynol ac emosiynol y staff sy'n rheoli troseddwy rhyw - nid oes darpariaeth dda ar eu cyfer.

Mae gan uwch swyddogion prawf (SPO) ystod eang o reolaeth, rhai'n goruchwylio achosion neu'n cyflawni rolau eraill, yn ogystal â chefnogi swyddogion sydd â chyfrifoldeb. Mae swyddogion sydd â chyfrifoldeb yn ystyried y gefnogaeth gan eu rheolwyr llinell yn gadarnhaol, ond ychydig iawn o hyder sydd ganddynt yn y ddarpariaeth cefnogi cyflogaion, PAM Assist. Roedd rolau a chyfrifoldebau SPO yn y ddalffa yn anghyson.

Gwaith a gyflwynwyd i droseddwy rhyw yn y ddalffa

Roedd gwaith yn y carchar gyda dynion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw'n wael ar y cyfan, ac roeddem yn pryderu nad oedd y risg i'r cyhoedd gan y rhai hynny a ryddhawyd yn cael ei rheoli'n ddigon da. Nid oedd digon o waith wedi'i wneud i leihau naill ai'r risg o niwed a gyflwynir, neu'r risg o aildroseddu ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn cymryd rhan mewn rhaglen gwaith grŵp achrededig. Yn y ddalffa, ystyrir rhaglenni achrededig fel yr unig ffordd o weithio gyda dynion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw.

Ni reolwyd y cynllunio ar gyfer rhyddhau'n ddigon da, gan gynnwys y defnydd o gyfarfodydd tîm rheoli risg rhyngadrannol (IRMT) a MAPPa. Ni chafwyd gwaith da ar y cyd rhwng staff yr NPS yn y gymuned a thimau rheoli troseddwy yn y carchar mewn nifer o achosion, gan arwain at gynlluniau rheoli risg a rhyddhau gwael. Cymhlethwyd hyn gan ddiffyg llety addas ar gyfer troseddwy rhyw.

Roedd symud troseddwy rhyw o gwmpas ystâd y carchar i gael mynediad i ymyriadau addas yn anodd, ac roedd hyn yn effeithio ar allu dynion i wneud cynnydd. Ar ben hynny, roedd cyfleoedd i symud i amodau agored yn gyfyngedig oherwydd prinder lleoedd a oedd ar gael.

Nid oedd digon o swyddogion carchar wedi'u hyfforddi a'u cefnogi i adnabod risg o niwed, neu i gyflwyno ymyriadau addas.

Lleihau aildroseddu

Mae'r broses gyfredol o asesu troseddwy gan ddefnyddio nifer fawr o ddulliau yn drwsgl. Mewn gormod o achosion, nid oedd staff yn defnyddio dulliau asesu'n ddigon da, a gyda'i gilydd, i sicrhau asesiadau risg cynhwysfawr. Roedd asesiadau cychwynnol OASys yn y gymuned yn dda ar y cyfan, a RM2000s yn gywir. Fodd bynnag, roedd asesiadau arbenigol System Rheoli Risg Gweithredol

troseddwy'r rhyw yn wael ac nid oeddent yn hysbysu asesiadau eraill a chyflwyniad ymyriadau'n aml. Roedd hyn yn golygu bod asesu dynion yn gyffredinol yn annigonol mewn traean o achosion.

Gwneir defnydd annigonol o raglenni achrededig i droseddwy'r rhyw yn y gymuned. Mae rhai dynion yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i raglenni, ac ni fodlonir rhai anghenion, gan gynnwys ar gyfer y dynion hynny sydd ag anabledau dysgu. Lle nad oes gan ddynion amod trwydded neu ofyniad i gwblhau rhaglen achrededig, prin iawn y cawsant eu hystyried gan swyddogion cyfrifol, er bod rhai unigolion yn addas ar eu cyfer.

Ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn cymryd rhan mewn rhaglen, nid yw cyflwyno gwaith unigol yn ddigon da. Mae gormod o droseddwy'r yn cwblhau eu dedfryd heb gyflawni gwaith digonol i leihau eu risg o droseddu'n rhywiol. Mae amrywiaeth o ymyriadau a dulliau a etifeddwyd yn cael eu defnyddio yn y gymuned, gyda staff ag ychydig wybodaeth o, neu hyder yn, y Mapiau ar gyfer Newid ymyrraeth un i un.

Nid yw swyddogion cyfrifol yn adolygu'r gwaith a gyflwynwyd neu'r lefelau risg yn ddigon rheolaidd. O ganlyniad, ni chynhwyswyd datblygiadau newydd arwyddocaol fel cwrdd â phartner newydd, neu ymddygiad yn y ddalfa, bob amser mewn asesiadau a chynlluniau dilynol.

Mae gan droseddwy'r rhyw yn aml sawl swyddog sydd â chyfrifoldeb, ac mae hyn yn effeithio ar eu profiad o oruchwylio, yn y ddalfa yn ogystal â'r gymuned, a sut y'u cefnogir i newid eu hymddygiad. Yn y ddalfa, nid oedd gan rai troseddwy'r swyddog cyfrifol o gwbl.

Diogelu'r cyhoedd

Rheolwyd troseddwy'r rhyw yn bennaf ar lefel MAPPa addas i gefnogi diogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, roedd prosesau MAPPa'n amrywio a deallwyd y meini prawf atgyfeirio'n wahanol ledled y NPS yn ogystal â Gwasanaeth Carchardai EM.

Mewn gormod o achosion, ni adolygwyd lefelau risg ac anghenion dynion a gynhwyswyd o dan Lefel 1 MAPPa (y mwyafrif o droseddwy'r rhyw) yn ddigon da. Mae proses Lefel 1 MAPPa yn amrywio ledled y NPS. Lle nad oedd yn cael ei chwblhau'n ddigonol, collwyd cyfleoedd i adnabod newidiadau mewn lefelau risg yn gynnar yn y broses.

Canfuwyd perthynas strategol dda gennym rhwng yr NPS a'r heddlu a gwasanaethau plant. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn cael ei gopïo ar lefel weithredol.

Roedd y defnydd anghyson, cyfyngedig o'r Gofrestr Troseddwy'r Treisgar a Throseddwy'r Rhyw (ViSOR) yn golygu y collwyd cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth systematig rhwng partneriaid, ac felly i reoli risg amlasiantaethol yn dda.

Roedd asesiad cyffredinol troseddwy'r rhyw yn annigonol mewn traean o achosion ac nid oedd bob amser wedi ystyried anghenion dioddefwyr a phlant. Nid oedd gan rai aelodau o staff y lefel briodol o chwilfrydedd proffesiynol wrth ddelio â'r dynion hyn. Mewn traean o achosion, ni wnaethpwyd gwiriadau diogelu fel roedd angen trwy gydol y ddedfryd. Ychydig iawn o ymweliadau cartref a gyflawnwyd gan swyddogion cyfrifol yn yr achosion a arolygwyd, ac roedd hyn yn golygu eu bod wedi colli cyfle allweddol i gasglu gwybodaeth i hysbysu asesiadau ac adolygiadau risg. Weithiau deliwyd ag achosion gan swyddog ar ddyletswydd neu mewn cyfleuster adrodd, a oedd yn golygu nad oedd ymyriadau â chanolbwynt a chynlluniedig yn digwydd.

Canfuwyd gennym fod swyddogion cyswllt dioddefwyr yn mynd y tu hwnt i ofynion cyflwyno'r VCS a bod staff pwrpasol yn cyflawni'r gwaith. Fel y swyddogion cyfrifol, ni chefnogir y staff hyn yn ddigon da, o ystyried y gwaith emosiynol a heriol y maent yn ei gyflawni.

Argymhellion

Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM sicrhau'r pethau a ganlyn ar gyfer achosion yn y ddalffa yn ogystal â'r gymuned:

1. y rhoddir dull eglur i staff o weithio gyda'r rhai hynny sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw
2. y cynhelir dadansoddiadau rheolaidd a chynhwysfawr cenedlaethol ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â throsteddu ac anghenion y rhai hynny sydd wedi'u dedfrydu am droseddau rhyw
3. yr hyrwyddir gweithio agosach ganddynt rhwng CRCs, staff y carchar a'r NPS fel bod parhad mewn cefnogaeth adsefydlu, dulliau effeithiol o ddiogelu'r cyhoedd a goruchwyliaeth trwy gydol y ddedfryd
4. y darperir ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer troseddwy'r nad yw rhaglenni achrededig yn bodloni eu hanghenion
5. bod y gweithlu'n gymwys i nodi, asesu a chyflwyno ymyriadau addas i reoli'r risg o niwed a gyflwynir gan y rhai hynny sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw
6. y gwellir systemau TG i hyrwyddo trefniadau gweithio ar y cyd ac i sicrhau eu bod ar gael i staff perthnasol yn y ddalffa yn ogystal â'r gymuned.

Dylai adrannau'r NPS a Gwasanaeth Carchardai EM:

7. wella'r broses o integreiddio dulliau asesu ac ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau i sicrhau y diogelir y cyhoedd, yn enwedig plant a gwir ddioddefwyr a rhai potensial.
8. sicrhau y cynigir y lefel addas o gefnogaeth broffesiynol ac emosiynol i'r rhai hynny a neilltuwyd i weithio gyda throsteddwyr rhyw i ddelio â'u llwyth achosion sydd o natur gymhleth, ac yn anodd yn aml.
9. sicrhau bod y broses o osod lefel MAPPA yn gyson, wedi'i mynegi'n eglur ledled yr awdurdodau sydd â chyfrifoldeb, ac yn seiliedig ar asesu cadarn ac adolygiadau rheolaidd
10. sicrhau y cyflwynir rhaglenni achrededig ymhob achos addas
11. hyfforddi staff i gyflwyno rhaglenni gwaith unigol i'w defnyddio gyda throsteddwyr rhyw nad ydynt yn amodol ar raglen achrededig gwaith grŵp troseddau rhywiol
12. sicrhau y neilltuir swyddog NPS sydd â chyfrifoldeb a goruchwylwr troseddwy'r seiliedig yn y carchar sydd â rhan weithredol yn y gwaith o rheoli'r achos i bob troseddwr rhywiol sydd wedi'u dedfrydu.

Dylai Gwasanaeth Carchardai EM sicrhau bod:

13. gweithdrefnau diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys monitro cyfathrebu, yn ddigon cadarn ac y'u gweithredir yn gyson
14. carchardai yn gwneud cyfraniad mwy effeithiol yn eu rôl fel awdurdod sydd â chyfrifoldeb MAPPA
15. gan bob carchar strategaeth weithredol i leihau aildroseddau, yn seiliedig ar ddadansoddiad anghenion cyfredol, sy'n nodi'r camau i'w cymryd gyda'r boblogaeth o droseddwy'r rhyw sydd wedi'u dedfrydu.

1. Cyflwyniad

1.1. Pam y thematig hwn?

Mae troseddau rhywiol yn ôl ei natur yn bwnc emosiynol a chymhleth a gall y fath drosedd gael effaith andwyol ar ddiodefwyr. Mae diddordeb y cyfryngau a'r cyhoedd ynghylch sut y rheolir achosion o'r fath wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd y nifer o achosion uchel eu proffil yr adroddwyd amdanynt.

Cwblhawyd yr arolwg thematig diwethaf am waith gyda throseddau rhyw gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn 2010, ar y cyd ag Arolygiaeth Cwnstablfaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, 2010). Roedd yr argymhellion, i'r Meysydd Prawf bryd hynny, yn cynnwys sicrhau y gallai throseddau rhyw gael mynediad i raglenni triniaeth yn addas, gan wella'r defnydd o systemau gwybodaeth i gefnogi gwaith aml asiantaeth, a chysondeb gwell mewn cynlluniau asiantaeth. Ar ben hynny, dylid cyflwyno proses ddiffynadwy ar gyfer dosbarthu a rheoli achosion Lefel 1 MAPPA. Yn olaf, nododd yr adroddiad bod angen canolbwyntio mwy ar waith a gyflwynir i unigolion nad ydynt ar raglen achrededig, ac y dylid cefnogi staff sy'n gweithio gyda throseddau rhyw yn well a rhoi hyfforddiant iddynt i wneud hynny.

Canfu arolygon Carchardai EM ddiffygion arwyddocaol yn ansawdd yr asesiad a mynediad i raglenni achrededig i droseddau rhyw. Mae trefniadau adsefydlu a diogelu'r cyhoedd yn y carchar yn amrywiol ac ni bennir lefelau MAPPA bob amser mewn da bryd cyn rhyddhau.

Penderfynom gynnal arolwg ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai EM i asesu ansawdd y gwasanaethau a gyflwynir yn y carchar yn ogystal ag yn y gymuned.

1.2. Cefndir

Ers ein harolwg thematig diwethaf, mae nifer yr RSOs wedi cynyddu dros 20,000, o 34,939 ym mis Mawrth 2010 i 58,637 ym mis Mawrth 2018 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018).

Yn yr un cyfnod, mae nifer y throseddau a oruchwyliwyd o dan Lefel 2 a 3 MAPPA wedi gostwng yn arwyddocaol. Mae'r nifer ar Lefel 2 wedi gostwng o 1,856 i 609, ac ar Lefel 3 o 118 i 45.

Cofnododd yr heddlu 150,732 o droseddau rhyw yn y flwyddyn hyd fis Mawrth 2018, o gymharu â 56,652 yn 2002/2003.

Ar Fawrth 31 2018, roedd 13,580 o garcharorion yn y carchar am droseddau rhyw. Roedd hyn yn cynrychioli 19% o'r boblogaeth sydd wedi'u dedfrydu yn y carchar⁷. Mae nifer y carcharorion sy'n cyflawni eu dedfryd o garchar yn syth am droseddau rhyw nawr ar ei lefel uchaf ers 2002 **Error! Bookmark not defined.** Mae hyn yn gyson â data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

⁷ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018). *Ystadegau Llwyth Gwaith Rheoli Troseddau*.

ynghylch y nifer o droseddau rhyw a gofnodwyd gan yr heddlu yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018⁸.

Credir bod y cynnydd hwn wedi digwydd oherwydd gwelliant yn y broses o gofnodi troseddau rhyw gan yr heddlu yn ogystal â pharodrwydd cynyddol gan ddiodefwr i gysylltu â'r heddlu ac adrodd am y troseddau hyn. Canfu Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi bod nifer helaeth o droseddau rhyw wedi'u tangofnodi, o 26% yn genedlaethol (Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, 2014). Arweiniodd hyn at luoedd yr heddlu'n adolygu a gwella eu prosesau cofnodi. Yn ogystal, mae'n debygol bod proffil uchel adrodd yn y cyfryngau, ac ymateb yr heddlu i adroddiadau o droseddau rhyw hanesyddol (er enghraifft, trwy Ymgyrch Yewtree, a gychwynnodd yn 2012) yn debygol o fod wedi annog diodefwr i adrodd wrth yr heddlu am droseddau diweddar yn ogystal â rhai na ddigwyddodd yn ddiweddar.

Asesiadau ac ymyriadau troseddwr rhyw

Asesiadau

Mae'r NPS yn defnyddio nifer o dulliau gwahanol o hysbysu asesiadau, asesu risg a nodi ffactorau diogelu ar gyfer y rhai hynny sydd wedi'u dedfrydu o drosedd rhyw.

OASys yw'r dull asesu a ddefnyddir gan yr NPS ar gyfer pob troseddwr. Nid yw'n canolbwyntio'n benodol ar droseddu rhywiol, ond mae'n rhoi'r cyfle i swyddogion cyfrifol gasglu amrywiaeth eang o wybodaeth am unigolyn a'u hanghenion a'u ffactorau risg.

Cyflwynwyd y dull ARMS yn 2015 (NOMS, 2015). Tra y'i defnyddir fel dull asesu risg gan yr heddlu, fe'i defnyddir gan yr NPS i helpu i ddeall y risg ddynamig a ffactorau diogelu i ddynion sydd wedi cyflawni troseddau rhyw. Mae'r NPS yn gyfrifol am gwblhau asesiadau ARMS ar gyfer yr RSOs hynny sy'n amodol ar oruchwyliaeth prawf, lle mai'r NPS yw'r brif asiantaeth. Mae'n addas i'w ddefnyddio'n unig gyda dynion sydd wedi cyflawni troseddau rhyw.

Mae Risk Matrix 2000 (RM2000) yn ddull a ddefnyddir i ragweld y risg o aildroseddu ar gyfer dynion a ddyfernir yn euog o droseddau rhyw. Mae'n defnyddio gwybodaeth statig am yr unigolyn a'u trosedd i roi asesiad actiwaraidd o'u risg o aildroseddu.

Asesiad risg actiwaraidd yw'r dull mwyaf pwysig a chyffredin o asesu troseddwr rhyw mewn ymchwil yn ogystal ag arfer; fodd bynnag, heb fewnbwn clinigol, gall asesiad o'r fath fod yn fecanyddol. Canfu Grove et al (2000) o ddadansoddiad-meta o 136 o astudiaethau bod asesiad risg actiwaraidd yn perfformio'n well na barn clinigol unigol mewn termau rhagfynegol.

Canfu Hanson a Morton-Bourgon (2005) mai'r rhagfynegyddion cryfaf o aildroseddu rhywiol oedd gwriad rhywiol, cyfeiriadedd gwrth-gymdeithasol, agweddau sy'n tueddu i achosi troseddu a diffyg cyfeillgarwch agos. Nid oedd gan brofiadau andwyol plentyndod, problemau seicolegol cyffredinol a chyflwyniad clinigol unrhyw werth rhagfynegol. Y rhagfynegydd cryfaf o aildroseddu heb fod yn rhywiol oedd cyfeiriadedd gwrth-gymdeithasol.

Ymyriadau

⁸Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018). *Trosedd yn Lloegr a Chymru: Tablau Bwletin, Y Flwyddyn yn Diweddu fis Mehefin 2017*.

Rhaglenni achrededig

Derbynnir yn gyffredinol y gall rhaglenni achrededig fod â rhan bwysig yn y broses o ymatal. Gallant roi cyfalaf dynol i bobl, hynny yw, y sgiliau, galluoedd ac agweddau y mae eu hangen arnynt i fyw bywyd heb drosedd (Maruna a LeBel, 2010). Achredir rhaglenni trwy'r Panel Cyngor ac Achredu Gwasanaethau Cywirol (CSAAP) o arbenigwyr annibynnol, rhyngwladol. Mae'r meini prawf achredu'n gofyn am:

- (i) esboniad eglur o sut y bydd y rhaglen yn cyflwyno ei chanlyniadau bwriadedig, gyda'r rhesymeg yn seiliedig ar ddeall y dystiolaeth ynghylch achosion o drosedd ac ymataliaeth; a
- (ii) chynllun ymchwil a gwerthuso.

Yn ystod ail achredu (pum mlynedd yn ddiweddarach), dylai'r gwerthusiad neu ganlyniad yr astudiaeth ddangos yn eglur pa newidiadau sy'n digwydd.

Yn hanesyddol, cynhaliodd pob ymddiriedolaeth prawf, a nifer o garchardai'r SOTP-ymyriadau seicolegol gwybyddol ymddygiadol a luniwyd gan HMPPS ar gyfer dynion a oedd wedi cyflawni troseddau rhyw. Ar ôl mis Rhagfyr 2015, fe'u cyfyngwyd i ddynion a ddsbarthwyd fel risg canolig RM2000 neu uwch, ar ôl i ymchwil nodi y gallai triniaeth ar gyfer dynion risg isel fod yn wrthgynhyrchiol.

Roedd disgwyl y byddai ymyriadau newydd a oedd yn ymgorffori'r model bioseicolegol cymdeithasol yn cymryd lle'r rhaglenni hyn ac y byddent yn cael eu cynnal yn y ddalffa yn ogystal â'r gymuned. Yn dilyn y gwerthusiad negyddol o raglenni SOTP yn y ddalffa (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017) roedd HMPPS yn ystyried eu bod yn anaddas ar gyfer ail-achredu a chafwyd y cyngor ganddynt na ddylent gael eu comisiynu bellach yn y gymuned chwaith. Byddai dull newydd yn seiliedig ar gryfderau i weithio gyda throseddwyr rhyw yn dilyn. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar wella lles, adnabod ffactorau diogelu a rhoi rhagolwg cadarnhaol i ddynion ar gyfer eu dyfodol i ffwrdd o aildroseddu. Mae'n adeiladu ar gryfderau presennol ac yn helpu i ddatblygu sgiliau newydd i alluogi i gyfranogwyr orchfygu ffactorau risg i droseddu.

Adroddwyd am fwy o ganfyddiadau cadarnhaol o effeithiolrwydd rhaglenni troseddwyr rhyw - yn enwedig mewn lleoliadau cymuned ac ysbyty - mewn adolygiad systematig o 27 o astudiaethau a oedd yn cynnwys tua 10,000 o droseddwyr (Schmucker a Lösel, 2017). Dangosodd yr ymchwil hon bod lleihad arwyddocaol mewn cyfraddau aildroseddu (roedd 10.1% o droseddwyr rhyw a dderbyniodd driniaeth wedi aildroseddu o gymharu â 13.7% na dderbyniodd driniaeth). Mae astudiaeth ddiweddar yn cefnogi ymchwil gyfredol na fydd rhaglenni'n unig yn gallu gwneud newid arwyddocaol mewn troseddwyr rhyw. Mae angen help a chefnogaeth ymarferol barhaus ar ddynion, sydd wedi ei haddasu i'w hanghenion unigol (Wakeling a Saloo, 2018).

Cyflwynwyd y rhaglen newydd, Horizon, ledled yr NPS a Gwasanaeth Carchardai EM. Mae i-Horizon wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar yn y gymuned ar gyfer y rhai hynny sydd wedi cyflawni troseddau ar y rhyngwryd, ond nid yw ar gael yn y ddalffa.

Mae Kaizen a Horizon yn cynnwys y 'New Me MOT' fel rhan o'u hachrediad. Mae'r 'New Me MOT' yn becyn y gellir ei ddefnyddio gan swyddogion prawf i ddarparu cefnogaeth barhaus i'r rhai sydd wedi cwblhau'r rhaglen. Mae wedi'i seilio ar yr egwyddor o oruchwylio prawf effeithiol yn ogystal â'r angen i gynnig cyfle i'r rhai sydd wedi cwblhau'r cwrs i gyfnerthu eu dysgu ac ehangu ar hyn mewn cyd-destunau eraill.

Penderfynwyd peidio â chyflwyno Kaizen yn y gymuned yn syth oherwydd pryderon a ysgogwyd gan dystiolaeth na fyddai modd cyfiawnhau o bosib raglen ar gyfer troseddwyr risg uchel ac anghenion uchel yn y gymuned. Cynhaliwyd peilot oedd yn archwilio ymarferoldeb gweithredu Kaizen yn y gymuned yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, ond nid yw'r canlyniadau ar gael eto. Nod y peilot hwn oedd archwilio'r angen ar gyfer Kaizen yn y gymuned yn ogystal â sut y gellir ei weithredu yn y modd mwyaf effeithlon ac ymarferol.

Ymyriadau Eraill

Caniataodd *Deddf Rheoli Troseddwy'r 2007* i amod prawf polygraff gael ei ychwanegu at drwyddedau troseddwy'r rhyw a ryddhawyd o ddedfrydau o 12 mis neu fwy. Gellir defnyddio'r amod dim ond gyda'r troseddwy'r hynny a aseswyd fel rhai sy'n peri risg uchel o niwed a risg uchel o aildroseddu. Canfu gwerthusiad yn 2012 (Gannon, 2012) bod troseddwy'r yn y grŵp prawf polygraff yn llawer mwy tebygol o wneud datguddiad clinigol arwyddocaol na'r rhai hynny yn y grŵp rheoli a bod rheolwyr troseddwy'r y grŵp prawf yn fwy tebygol o gychwyn gweithredu camau ataliol i ddiogelu'r cyhoedd na'r rhai hynny oedd yn rheoli'r grŵp rheoli.

Ceir nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol sydd â'r nod o reoli'r risg a gyflwynir gan droseddwy'r rhyw. Mae'r rhain yn cynnwys Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPOs), a gyflwynwyd yn y *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*. Maent yn caniatáu i lysoedd osod cyfyngiadau a gofynion ar y rhai hynny a gafodd eu dyfarnu'n euog neu a gafodd rybudd am droseddau rhyw sydd wedi'u hasesu fel rhai sy'n dangos risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd.

Mae'n bosibl y bydd gan droseddwy'r rhyw a ryddheir ar drwydded ac sy'n atebol i arolygiaeth gan y NPS amodau cyfyngol yn rhan o'u trwydded. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd gwaharddedig, sy'n atal unigolyn rhag mynd i mewn i ardal benodol, ac amodau i atal cyswllt ag unigolion neu grwpiau penodol y gallent beri risg iddynt.

1.3. Nodau ac amcanion

Canolbwyntiodd ein harolwg ar y gwaith a gyflwynwyd gan yr NPS yn y gymuned yn ogystal â'r ddalfa, ac ar waith Gwasanaeth Carchardai EM mewn dalfeydd. Ein bwriad yw mynd i'r afael â'r canlynol:

1. Sut mae rheolaeth ac arweinyddiaeth strategol HMPPS a'r NPS yn cefnogi ac yn hyrwyddo cyflwyno gwasanaeth ymatebol, personol ac o ansawdd uchel i droseddwy'r a dioddefwyr troseddwy'r rhyw?
2. Sut y galluogir staff yn y ddau sefydliad i gyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel i droseddwy'r a dioddefwyr troseddwy'r rhyw?
3. Oes amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau ac ymyriadau mewn grym i gyflawni gwaith gydag achosion troseddwy'r rhyw, yn y ddalfa yn ogystal â'r gymuned?
4. Pa mor dda y mae ymarferwyr yn yr NPS a Gwasanaeth Carchardai EM yn cefnogi ymatal rhag ymddygiad troseddu rhywiol?
5. Sut y cefnogir a diogelir dioddefwyr a'u plant?
6. Sut y sefydlir, cynhelir ac y defnyddir trefniadau gyda phartneriaid, darparwyr ac asiantaethau statudol eraill yn effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel?

Mewn dalfeydd, canolbwyntiom ar y meysydd canlynol:

1. Strategaeth genedlaethol: Oes strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli troseddwy'r rhyw sydd wedi'u dyfarnu'n euog? Oes gan garchardai strategaeth leol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad anghenion cynhwysfawr i reoli troseddwy'r rhyw sydd wedi'u dyfarnu'n euog?
2. Gwaith a gyflawnir yn y ddalfa: Pa mor rhagweithiol yw rheoli troseddwy'r rhyw yn y ddalfa? Sawl un sy'n gymwys ac yn addas ar gyfer rhaglenni achrededig? Beth a gynigir i'r rhai hynny nad ydynt yn addas ar gyfer rhaglenni achrededig?

3. Rheoli risg: A sefydlir cynlluniau rhyddhau cynhwysfawr amlasiantaeth sy'n rheoli risg mewn digon o bryd cyn rhyddhau? Ydy'r rhain yn cael eu datblygu ar y cyd â'r carchar? A yw'r swyddog NPS sydd â chyfrifoldeb a leolir yn y gymuned yn cyfranogi'n weithredol yn y misoedd sy'n arwain at ryddhau ac a yw'r carcharor yn cyfrannu at ddatblygiad ei gynllun rhyddhau?

1.4. Amlinelliad yr adroddiad

Pennod	Cynnwys
2. Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth	Sut mae arweinyddiaeth strategol yn cefnogi cyflwyno gwaith gyda dynion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw. Sut y galluogir staff a rheolwyr i ddarparu gwasanaeth o ansawdd dda i'r dynion hynny, i'w galluogi i leihau eu risg o niwed a mynd i'r afael a'u hymddygiad troseddol.
3. Gwaith a gyflawnir yn y ddalfa	Ansawdd y gwaith a gyflwynir i droseddwr rhyw yn y ddalfa, gan gynnwys ymyriadau a chynllunio rhyddhau ac adsefydlu. Sut y galluogir staff a rheolwyr y carchar i ddarparu gwasanaeth o ansawdd dda i'r dynion hynny, i'w galluogi i leihau eu risg o niwed a mynd i'r afael a'u hymddygiad troseddol.
4. Gwaith i leihau aildroseddu	Ansawdd cynllunio asesu ac ymyriadau - rhaglenni gwaith grŵp achrededig yn ogystal â gwaith a gyflwynir ar sail unigol.
5. Diogelu'r cyhoedd	Effeithiolrwydd MAPPa a gwaith partneriaeth arall. Pa mor dda y mae'r NPS yn ystyried anghenion plant a dioddefwyr.

2. Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth

Yn y bennod hon, rydym yn adrodd am y dull strategol a ddefnyddir gan HMPPS, Gwasanaeth Carchardai EM a'r NPS wrth gyflwyno gwaith i'r dynion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw. Rydym yn cynnwys ein casgliadau ynghylch modelau, prosiectau a pholisïau gweithredu a ddefnyddir ledled yr asiantaethau.

2.1. Yr hyn a ganfuwyd gennym

Strategaeth ac arweinyddiaeth genedlaethol

Yn genedlaethol, ceir nifer o wahanol dimoedd a byrddau'n gyfrifol am amrywiol elfennau o waith gyda throeddwy'r rhywiol. Mae gan HMPPS, NPS a Gwasanaeth Carchardai EM dimoedd sy'n gyfrifol am y maes hwn o waith.

Mae gan Fwrdd Rheoli Troseddwy'r Rhywiol (SOMB) yr HMPPS, sy'n adrodd wrth Fwrdd Rheoli Gweithredol yr HMPPS, y cyfrifoldeb strategol cyffredinol am droseddwy'r rhywiol. Fe'i ail-lansiwyd ym mis Chwefror 2018 pan benodwyd cadeirydd newydd, yn dilyn cydnabyddiaeth bod angen dull cyd-gysylltiedig i'r gwaith. Ei rôl yw sicrhau bod HMPPS yn diogelu'r cyhoedd ac yn lleihau aildroseddu gan droseddwy'r rhyw. Mae'r bwrdd yn rhoi cyngor ac arweiniad i gefnogi darpariaeth gwasanaethau i droseddwy'r rhyw, ac yn rhoi'r manylion diweddaraf i sefydliadau am ymchwil a dulliau newydd. Mae'n hyrwyddo sail ddamcaniaethol i'r gwaith, ac yn rhoi cyngor ynghylch dulliau ac ymyriadau addas i asesu risg.

Ceir nifer o grwpiau a thimoedd eraill sydd â chyfrifoldeb am waith troseddwy'r rhyw. Mae'r rhain yn cynnwys Pennaeth cyfarfodydd Diogelu'r Cyhoedd HMPPS (sy'n cynnwys Is-Grŵp Cyfeirnod Troseddu Rhyw'n Genedlaethol), Tîm Polisi Troseddwy'r Rhywiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Grŵp Llywio Cenedlaethol yr Awdurdod sydd â Chyfrifoldeb a Grŵp Ymyriadau yr HMPPS. Mae gan bob un o'r grwpiau hyn rôl yn y ffordd y gweithredir ac y cyflwynir gwaith troseddwy'r rhyw yn y gymuned yn ogystal â'r ddalfa. Nid oedd bob amser yn eglur sut y cyfathrebir cyfrifoldeb am fentrau strategol yn ffurfiol ledled y grwpiau hyn. Canfuwyd gennym fod rhai rolau a chyfrifoldebau'n gorgyffwrdd a'r SOMB fydd yn cyd-drefnu'r gwaith yn effeithiol.

Arweinyddiaeth y NPS

Sefydlwyd Adran Arferion Gwaith Prawf Effeithiol y NPS tua 18 mis yn ôl. Mae'n gyfrifol am gefnogi'r NPS i wella ansawdd ac effeithiolrwydd arferion gwaith prawf wrth oruchwylio perfformiad a rheoli prosiectau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â dysgu, sicrwydd a datblygiad proffesiynol.

Mae'r EPP yn datblygu arferion a dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'w defnyddio gan yr adrannau gweithredol. Er enghraifft, mae wedi cynhyrchu sesiynau briffio saith munud ynghylch agweddau amrywiol o arferion troseddau rhyw. Mae wedyn fyny i'r adrannau benderfynu pa ffordd yw'r dull orau o gyfathrebu a gweithredu'r arweiniad hwn. Cynhaliodd rhai meysydd friffiau, defnyddiodd eraill gyfarfodydd tîm ac roedd eraill yn dibynnu ar e-bost. Roedd y sesiynau briffio saith munud ar gyfer staff yn arbennig o dda, a siom oedd canfod nad oedd nifer o staff yn gwybod amdanynt. Dywedodd rheolwyr a staff eraill eu bod yn teimlo eu bod wedi'u peledu â gwybodaeth. Roeddent yn ei chael hi'n anodd dilyn pwy oedd yn anfon beth, a phenderfynu sut i flaenoriaethu'r negeseuon a dderbynnir. Roedd hyn yn golygu nad oeddent yn darllen y wybodaeth bwysig yn aml.

Mae'r EPP hefyd yn gyfrifol am roi cyngor i Dîm Dysgu a Datblygu'r HMPPS ynghylch anghenion hyfforddi'r NPS. Roedd y mwyafrif o hyfforddiant ac arweiniad y NPS yn cael eu hanfon yn electronig a dywedodd nifer o staff wrthym nad oedd hyn yn cwrdd â'u gofynion a'u bod eisiau mwy o hyfforddiant wyneb yn wyneb.

Mae model gweithredu'r NPS yn dibynnu'n fawr ar ddefnyddio Rhagoriaeth ac Ansawdd mewn Proses (EQuIP) i ledaenu gwybodaeth ynghylch y broses a'r polisi. Nid yw EQuIP yn cwrdd ag anghenion pob aelod o staff, ac mae ystadegau'r NPS ynghylch ei defnydd yn nodi mai tua hanner o'r staff yn unig sy'n ei defnyddio'n rheolaidd. Tra bod EQuIP 'wrthi'n datblygu', ni all, ac yn wir nid yw wedi'i chynllunio i, gymryd lle goruchwyliaeth a chefnogaeth tîm rheoli da. Ar ben hynny, mae'n ymddangos bod rhai o'r pethau a ddylai fod ar gael i staff heb eu cynnwys ar EQuIP, gan gynnwys proses adolygu Lefel 1 MAPPA.

Yn ystod gwaith maes, canfuwyd gennym beth ansicrwydd ynghylch llinellau atebolrwydd ar lefel weithredol. Er enghraifft, gallai rheolwr NPS fod â phrif rôl adrannol am faes o waith, fel ARMS, ond

yn y bôn efallai nad oes ganddo gyfrifoldeb i'w chyflwyno. Roedd yn amlwg mewn rhai meysydd bod staff a rheolwyr wedi drysu ynghylch pwy oedd â chyfrifoldeb am beth.

Mae model gweithredu'r NPS, fel y cyflwynwyd yn lleol, yn caniatáu i staff bersonoli gwaith gyda'r rhai hynny sy'n atebol i oruchwyliaeth. Canfuwyd gennym nad oedd uwch reolwyr lleol bob amser yn rhannu'r un ddealltwriaeth ynglŷn â sut y dylid gweithredu'r model i waith eu tîm gyda throsteddwy'r rhywiol.

Comisiynodd NPS Jackie Craissati i werthuso anghenion hyfforddi a chefnogi staff NPS sy'n gweithio gyda throsteddwy'r rhyw (Craissati, 2017). Croesawyd y darn hwn o waith ac roedd yn ddefnyddiol. Roedd yn nodi'r angen i ddarparu hyfforddiant i staff ynghylch y dull sy'n seiliedig ar gryfderau ac i'w cefnogi'n well yn y math hwn o waith. Yn ystod gwaith maes, canfuwyd gennym dystiolaeth i gefnogi'r sawl elfen a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae gwaith wedi cychwyn i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

Mae'r NPS wedi cyhoeddi arweiniad ynghylch rhencio (HMPPS, mis Hydref 2017), gan esbonio sut y gall PSOs helpu i reoli trosteddwy'r rhywiol, lle mae'r staff hyn wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth addas i wneud hynny. Yn yr ardaloedd a ymwelwyd gennym, gwelsom fod y broses o weithredu yn y camau cyntaf, a'r rheswm a roddwyd am yr oedi oedd amheuan y staff ac anawsterau cael hyfforddiant i PSOs. Dywedodd rheolwyr eu bod yn meddwl bod gan PSOs rôl i'w chwarae yn y gwaith, ond bod angen rheoli a goruchwyllo hyn yn ofalus.

Cyn Trawsnewid Adsefydlu, gallai swyddogion a gyflogwyd gan ymddiriedolaethau prawf o'r blaen ddewis peidio â gweithio gyda throsteddwy'r rhyw os oeddent yn teimlo'n anghyfforddus yn gwneud hynny. O ystyried proffil llwyth gwaith NPS, byddai'n fwy anodd nawr i gwrdd ag anghenion staff sy'n dymuno 'optio allan' o'r math hwn o waith.

Arweinyddiaeth Gwasanaeth Carchardai EM

Ar y cyfan, roedd rheolaeth strategol poblogaethau trosteddwy'r rhyw o fewn pob carchar a arolygwyd yn annigonol. Nid oedd un o'r carchardai wedi datblygu strategaeth yn benodol i reoli trosteddwy'r rhyw, er bod dau o'r pum wedi cychwyn ar y broses.

Roedd y mwyafrif o garchardai a ymwelwyd gennym wedi ymgymryd â pheth dadansoddiad o anghenion adsefydlu cyffredinol eu poblogaeth gyfan, ond nid oedd rhai o'r rhain yn ddigon cadarn, gan ddibynnu'n bennaf ar ganfyddiadau o arolygon carcharorion. Roedd tri safle'n cyflwyno rhaglenni achrededig ar y pryd i drosteddwy'r rhywiol ac roedd bob un wedi ymgymryd â dadansoddiad anghenion i bennu'r math a'r nifer o grwpiau oedd eu hangen. O'r pum carchar a arolygwyd gennym, un yn unig (CEM Brixton) oedd wedi cwblhau dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion ehangach adsefydlu carcharorion oedd wedi'u dyfarnu'n euog o drosteddau rhywiol. Roeddent wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth i amlgygu problemau allweddol ac atebion potensial iddynt.

Mewn sawl modd, roedd hyn yn pwysleisio absenoldeb dadansoddiad anghenion cenedlaethol y HMPPS ar gyfer y rhai hynny oedd yn y carchar yn ogystal â'r rhai oedd â dedfryd cymunedol. Roedd hyn yn achos o bryder o ystyried y cynnydd yn y boblogaeth o drosteddwy'r rhyw ledled Lloegr a Chymru, a'u proffil newidiol. Er enghraifft, mae'r cynnydd yn y nifer o garcharorion y'u dedfrydwyd o drosteddau rhywiol hanesyddol yn golygu nad yw bellach yn anghyffredin i garchardai ddal dynion sy'n hŷn na 80 oed. Mae hynny'n golygu bod angen darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol addas. Heb wneud dadansoddiad anghenion cynhwysfawr, roedd hi'n anodd gweld sut y gallai'r HMPPS ymateb yn hyderus i risgiau a nodweddion amlwg yr ystod amrywiol o drosteddwy'r rhyw yn y carchar.

Mae disgwyl y cyflwynir y model newydd rheoli achos (OMiC) yn ystod yr 18 mis nesaf. Bydd yn cyflwyno darpariaeth craidd ac arbenigol. Bydd pob carcharor yn derbyn y gwasanaeth craidd, megis categoreiddio adolygiadau a chymeradwyo cyrffiw cyfyngu i'r cartref. Neilltuir eraill i swyddog carchar sydd â chyfrifoldeb, a fydd yn gyfrifol am y mwyafrif o achosion hyd at bwynt y cytunir arno pan drosglwyddir yr achos i swyddog cymunedol sydd â chyfrifoldeb. Mae hyn yn cynnwys pob achos NPS sydd â dros 10 mis ar ôl yn y carchar.

Dylai carcharorion gael eu rhyddhau o garchar adsefydlu lleol. Yn yr arolwg hwn, canfuwyd gennym fod anawsterau gyda throsglwyddo troseddwr rhywiol i'r carchar adsefydlu yn yr ardal lle cânt eu rhyddhau, oherwydd diffyg lle i garcharorion sy'n agored i niwed yn y safleoedd hynny ac yn aml oherwydd anghenion gofal cymdeithasol a meddygol penodol iawn unigolion. Roedd hyn yn golygu bod rhai troseddwr rhywiol sydd wedi'u dyfarnu'n euog yn cael eu rhyddhau o garchardai hyfforddi nad oedd ganddynt wasanaethau CRC adsefydlu a Trwy'r Giât.

Rhoi awdurdod i ymarferwyr

Ar y cyfan, roedd y staff y cwrddom â nhw'n frwdfrydig ac yn ymrwymedig i'w gwaith. Dywedodd nifer eu bod yn ystyried eu rôl fel galwedigaeth, ond ychwanegasant nad oedd ganddynt y dulliau, awdurdod a chefnogaeth addas i'w galluogi i gyflawni'r gwaith hwn yn effeithiol.

Cyn *Trawsnewid Adsefydlu*, yn nodweddiadol gallai llwyth achosion swyddog oedd â chyfrifoldeb gynnwys nifer fach o droseddwr rhyw; nawr mae troseddwr rhyw a throeddwr treisgar yn ffurfio'r rhan fwyaf o waith yr NPS. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod troseddwr rhyw'n cyfrif am oddeutu un ymhob pump o lwyth achosion cyffredinol NPS; fodd bynnag, roedd nifer o'r swyddogion sydd â chyfrifoldeb y siaradom â nhw'n rheoli cyfrannau uwch.

Canfuwyd gennym fod nifer o staff yr NPS, o bob lefel, yn cael trafferth gyda'r hollt canfyddedig rhwng y dull newydd sy'n seiliedig â'r gryfderau a dull sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o ddiogelu'r cyhoedd a'r 'rhagfynegydd gorau o ymddygiad yn y dyfodol yw ymddygiad yn y gorffennol'. Heb gyfarwyddyd da gan y ganolfan, gadawyd staff i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch y damcaniaethau y dylent eu defnyddio i danategu eu gwaith. Roedd pwysau ar staff i flaenoriaethu dwy elfen y gwaith, a thra bod tensiwn wedi bodoli erioed rhwng rheoli ac adsefydlu, canfuwyd gennym fod hyn yn waeth oherwydd proffil risg llwyth achosion NPS.

Canfuwyd arferion anghyson gennym, gyda swyddogion cyfrifol yn cau'r bylchau fel yr ystyrient orau, yn seiliedig ar eu profiad a'u dealltwriaeth flaenorol. Roedd eu canolbwynt yn fwy tebygol na pheidio, ac efallai'n ddealladwy, ar ddiogelu'r cyhoedd. Roedd hyn yn teimlo'n fwy 'cywir' iddynt na chanolbwyntio ar ddull oedd yn seiliedig ar gryfderau, h.y. dull oedd yn hepgor ymchwiliad manwl i hanes troseddu'r unigolyn ym marn nifer ohonynt.

Canfuwyd gennym nad oedd gan swyddogion sydd â chyfrifoldeb ddigon o amser neu gefnogaeth i'w galluogi i ddeall a myfyrio am y newid dull a'r dulliau cysylltiedig y gofynnir iddynt nawr eu defnyddio. Dywedodd staff eu bod wedi derbyn hyfforddiant a mewnbwn cyfyngedig ynghylch y model sy'n seiliedig ar gryfderau, y rhaglen Maps for Change a Horizon. Arweiniodd hyn at anallu ymysg llawer o staff i weithio gyda'r garfan hon o droseddwr. Dywedodd nifer wrthym eu bod yn dysgu ynghylch yr hyn oedd yn cael ei gyflwyno gan y dynion yr oeddent yn eu goruchwylio, yn hytrach nag o unrhyw ffynhonnell arall.

Roedd nifer yn poeni am y gwaith roeddent yn ei wneud, ac yn pryderu ynghylch y posibilrwydd o **"bethau'n mynd yn anghywir"**. Dywedodd nifer wrthym am eu pryder y byddai'r troseddwr y maent yn eu rheoli'n cyflawni troseddau pellach ac ynghylch y broses trosedd ddifrifol bellach (SFO) ddilynol. Dywedodd rhai aelodau o staff eu bod yn dueddol o gynyddu'r lefelau risg er mwyn lleihau'r posibilrwydd o hynny, ac roedd hyn yn achosi pryder.

Mewn rhai enghreifftiau lle dywedodd staff eu bod yn teimlo'n gymwys, nid oedd yr arfer bob amser yn adlewyrchu hyn. Cydnabu eraill nad oedd ganddynt y sgiliau na'r wybodaeth oedd eu hangen arnynt. Dywedodd un: "**Dw i ddim yn gwybod beth dw i ddim yn wybod**". Dywedodd eraill: "**Does dim syniad gennyf beth i'w wneud wrth oruchwyllo**", "**Dw i wedi gorfod dod o hyd i'n ffordd fy hun**" a "**Dw i'n gwneud pethau i fyny**".

Adroddodd nifer am yr heriau o siarad â dynion ynghylch pynciau personol iawn sy'n gysylltiedig â'u hymddygiad rhywiol a throseddol.

Roedd goruchwylwyr troseddwyr y carchar yn derbyn ychydig neu ddim hyfforddiant o gwbl na goruchwyliaeth wrth reoli troseddwyr rhyw. Dywedodd y mwyafrif eu bod wedi derbyn hyfforddiant OASys yn unig. Ychydig iawn oedd wedi derbyn hyfforddiant ynghylch asesu a rheoli'r risg o niwed i eraill neu hyfforddiant oedd yn benodol am reoli'r risgiau oedd yn gysylltiedig â'r rhai hynny a oedd wedi cyflawni troseddau rhyw. Yn fwy cadarnhaol, roedd CEM Doncaster wedi darparu hyfforddiant ar droseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Un safle'n unig oedd wedi darparu gwasanaeth cwnsela unigol i oruchwylwyr troseddwyr a swyddogion prawf y carchar i'w helpu i reoli effaith emosiynol potensial y gwaith hwn. Rhoddodd rhai goruchwylwyr troseddwyr enghreifftiau o sut roedd natur eu gwaith wedi effeithio ar eu bywyd personol neu eu barn am eraill.

Ystyriwyd bod yr is-reoli gan SPOs yn y gymuned yn dda gan y mwyafrif o swyddogion cyfrifol. Cymeradwyodd rhai hefyd y gefnogaeth ac arweiniad a dderbynion gan swyddogion datblygu ansawdd. Wedi dweud hynny, canfuwyd gennym fod gan SPOs o fewn timau rheoli troseddwyr rychwant eang o reolaeth, gyda rhai'n goruchwyllo achosion yn ogystal â rheoli swyddogion cyfrifol. Nid oedd gan rai SPOs brofiad uniongyrchol eu hunain o weithio gyda throseddwyr rhyw.

Mewn sawl ardal, roedd SPOs yn gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd Lefel 2 MAPPA, ac roedd rhai'n gyfrifol am reoli timau dioddefwyr. Rydym yn cwestiynu p'un ai, gyda'r fath lwyth gwaith heriol, a yw'n rhesymol disgwyl iddynt reoli risg yr achosion y maent yn eu goruchwyllo. Canfuwyd gennym mai un ymhob tri achos yn unig oedd â goruchwyliaeth ddigonol gan reolwyr. Roedd sesiynau goruchwyllo rhwng SPOs a swyddogion cyfrifol yn aml yn canolbwyntio ar drafod yr achosion a godwyd gan y swyddog cyfrifol, yn hytrach nag adolygiad systematig o'r llwyth achosion cyffredinol.

Nid oedd staff prawf, gan gynnwys VLOs, yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth addas gan yr NPS, o ystyried y cynnwys gofidus ac annymunol, a'r nifer uchel o droseddwyr treisgar neu rhyw, yn eu llwyth achosion. Canfuwyd gennym amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â lles staff, gan gynnwys anawsterau yn eu bywydau a pherthnasau personol, yn ogystal â straen a phryder sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Dywedodd un swyddog bod y gwaith "**yn cael effaith arno**", a dywedodd un arall, "**Rwy'n ei chael hi'n anodd ymdopi**".

Mae'r NPS wedi cyflwyno peth darpariaeth trwy raglen cymorth gweithwyr yr MoJ, PAM Assist, i roi cefnogaeth gyfrinachol i staff unigol neu mewn grŵp. Mae'r ddarpariaeth hon yn weddol newydd, a chanfuwyd gennym fod gan swyddogion yn ogystal â rheolwyr ddiffyg hyder yn yr hyn oedd yn cael ei gynnig, ac yn ei ystyried yn rhy generig. Roedd yn methu â chydabod y gwaith arbenigol a gyflawnwyd gyda throseddwyr rhyw gan staff prawf, a'r gefnogaeth roedd ei hangen arnynt. Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym eu bod yn teimlo y byddai cael mynediad i'r gwasanaeth "**yn cael ei ystyried fel gwendid**". Dywedodd un swyddog sydd â chyfrifoldeb fod gan staff "**ddiffyg hyder llwyr yn y gwasanaeth cefnogi mewnol**". Canfuwyd gennym fod peth oedi wedi bod wrth gael mynediad i'r gwasanaeth.

Siaradom â swyddogion prawf dan hyfforddiant (PQIPs), a oedd yn teimlo nad oedd yr hyfforddiant a gyflawnwyd ganddynt, neu yr oeddent yn y broses o'i gyflawni, yn eu paratoi'n ddigonol i weithio gyda throseddwyr rhyw. Roedd teimlad bod rhaid iddynt weithio gyda'r grŵp hwn o droseddwyr yn rhy gynnar yn eu gyrfaedd prawf, cyn bod ganddynt y sgiliau a'r profiadau craidd i wneud hynny.

Croesawyd y cyfle gan rai i gyd-weithio neu gael eu mentora trwy achosion, ond nid oedd hyn bob amser yn bosibl o ystyried adnoddau staff. Roedd swyddogion profiadol yn teimlo nad oedd hyfforddiant y PQIP yn galluogi cydweithwyr i gyflwyno'r gwaith yn gymwys, ac yn aml roeddent yn cael eu gadael i gefnogi staff i lenwi'r bylchau yn eu dysgu.

Siaradodd nifer o swyddogion cyswllt dioddefwyr am brofiadau anodd yn cwrdd â dioddefwyr troseddau rhyw a'u teuluoedd. Canfu adroddiad Arolygiaeth Prawf EM sy'n llawn ffeithiau mewn perthynas ag achos John Worboys (Arolygiaeth Prawf EM, 2018) y byddai'r staff hyn yn manteisio ar hyfforddiant ychwanegol. Tra bod hyfforddiant wedi'i gyflwyno o ganlyniad, adroddodd rhai staff nad oeddent wedi'i dderbyn eto.

Croesawyd y broses ddiweddar o gyflwyno gliniaduron unigol i staff yr NPS, gan ei bod yn caniatáu trefniadau gweithio mwy hyblyg. Fodd bynnag, dywedodd nifer o swyddogion cyfrifol eu bod yn teimlo bod y terfyn rhwng bywyd yn y cartref a'r gwaith yn aneglur. Dywedodd swyddogion cyfrifol a rheolwyr eu bod yn gweithio oriau hir yn rheolaidd ar eu gliniaduron gartref yn ystod nosweithiau a phenwythnosau **"er mwyn cadw i fyny â'r gwaith"**, ac adroddwyd am enghreifftiau o staff yn mynd â'u gliniaduron gyda nhw ar wyliau. Dywedodd staff hefyd ei bod hi'n anodd gwahanu gwaith a'r cartref, ac roedd cynnwys y gwaith weithiau'n achosi pryder yn y cartref a'r amgylchedd teuluol. Dywedodd un, **"pan dw i'n mynd â'r gliniadur gartref gyda fi, mae'n anodd cysgu weithiau ar ôl darllen peth o'r gwaith"**.

Enghraifft arfer da – Newcastle

Ar adeg yr arolwg, roedd is-adran y Gogledd-ddwyrain yn y broses o lansio pecyn o wybodaeth oedd yn seiliedig ar y we ac arweiniad i staff sy'n gweithio gyda throeddwr rhyw. Bydd fel 'siop un alwad' er mwyn darparu'r holl wybodaeth mewn un porth sy'n rhwydd i'w ddefnyddio.

Er nad ydym yn gallu gwerthuso ei effeithiolrwydd, roeddem yn gallu gweld enghraifft o'r pecyn a chroesawom y dull roedd yr is-adran wedi'i fabwysiadu.

Canfyddiadau arolwg staff cenedlaethol yr NPS

Fel rhan o'n harolwg, cyhoeddodd Arolygiaeth Prawf EM arolwg cenedlaethol i staff yr NPS. Cwblhaodd bron i 300 o staff yr arolwg, a oedd yn canolbwyntio ar sut mae staff yr NPS yn gweithio gyda dynion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw. Roedd y mwyafrif o ymatebion gan swyddogion sydd â chyfrifoldeb a gyda mwy na phum mlynedd o brofiad yn eu rolau, a oedd yn cynrychioli holl adrannau'r NPS. Adleisiwyd y mwyafrif o'r ymatebion yng nghanfyddiadau ein harolwg.

Roedd chwarter o'r staff yn teimlo nad oedd eu hyfforddiant wedi'u paratoi'n ddigon da i asesu a gweithio gyda throeddwr rhyw. Dywedodd dros hanner bod bylchau arwyddocaol yn eu gwybodaeth ynghylch y dull sy'n seiliedig ar gryfderau, gyda rhai'n dweud mai ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd ganddynt yn y newid hwn mewn dull.

Roedd y mwyafrif o staff yn fodlon â'r gefnogaeth a ddarperir gan eu rheolwr llinell, a dywedodd nifer am sut roedd cefnogaeth gan gydweithwyr yn hanfodol iddynt reoli eu gwaith. Nid oeddent yn fodlon iawn â'r gefnogaeth arall sydd ar gael i staff mewn perthynas â'r gwaith. Dywedodd 60% o ymatebwyr 'nad oeddent' neu 'nad oeddent o gwbl' yn fodlon â'r gefnogaeth emosiynol a phroffesiynol a roddwyd iddynt.

Derbyniwyd ymateb mwy cadarnhaol ynghylch lefelau hyder staff i ddelio â'r gwaith hwn, gyda staff yn dweud eu bod yn teimlo'n hyderus wrth asesu risg a chyflwyno gwaith i droseddwy'r rhyw mewn mwyafrif arwyddocaol o achosion.

Casgliadau a goblygiadau

Mae dros bedair blynedd wedi mynd heibio ers *Trawsnewid Adsefydlu*, a chanfuwyd gennym nad yw'r NPS wedi datblygu'n ddigon cyflym i broffil ei lwyth gwaith. Dywedwyd wrthym bod sawl prosiect parhaus i wella'r broses o gyflwyno'r gwaith gyda throeddwy'r rhyw, er enghraifft cynadleddau a hyfforddiant wyneb yn wyneb, a chrosawir hyn. Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd bod y gwaith cenedlaethol yn arwain at welliannau mewn adrannau, ac mae angen gwneud mwy i leddfu'r diffyg cysylltiad rhwng y dull strategol a chyflwyno'r camau gweithredol.

Canfuwyd gennym fod diffyg dealltwriaeth o'r dull sy'n seiliedig ar gryfderau, a dulliau a rhaglenni cysylltiedig. O ganlyniad, nid oedd y gwaith a gyflwynwyd yn gyson. Mae angen mwy o hyfforddiant wyneb yn wyneb ar staff prawf i fynd i'r afael â'r maes cymhleth hwn o waith yn effeithiol. Nid yw'r ddarpariaeth cwnsela Assist PAM yn cwrdd â'u hanghenion, pan fo effaith emosiynol y gwaith yn amlwg. Heb gefnogaeth addas, mae risg y bydd y sefydliad yn colli staff ymrwymedig, medrus.

3. Gwaith a gyflwynir yn y ddalfa

Yn y bennod hon, rydym yn adrodd am yr hyn a ganfuwyd gennym ynghylch y gwaith a gyflwynir yn y ddalfa gyda dynion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw. Rydym yn ystyried y gwaith strategol a gweithredol a gyflwynir ledled y pum sefydliad a arolygwyd gennym.

3.1 Yr hyn a ganfuwyd gennym

Asesu a chynllunio

Ar gyfer y carcharorion hynny a ystyrir fel rhai sy'n peri risg uchel o niwed i eraill, dylai asesiad yr OASys gael ei gwblhau gan swyddog cyfrifol yr NPS. Byddai'r rheiny a ystyrir yn rhai sy'n peri risg isel neu ganolig o niwed yn derbyn asesiad OASys wedi'i baratoi gan yr uned rheoli troseddwy'r (OMU) yn y carchar.

Gofynnem i bob carchar roi dystiolaeth ynghylch faint o OASys cychwynol oedd ar goll. Roedd y gyfran yn amrywio o garchar i garchar ac yn amrywio o 11% i 29%. Ar ben hynny, roedd rhai dynion wedi'u dedfrydu heb OASys yn y llys ac roedd llawer heb gael adroddiad cyn dedfrydu wedi'i baratoi. Ychydig iawn o wybodaeth oedd gan y carchar am yr unigolyn, gan wneud y broses o asesu risg a nodi ymyriadau addas yn anodd.

Mewn rhai achosion, ni chafodd yr asesiad cychwynol ei wneud neu cafodd ei wneud yn llawer rhy hwyr i mewn i'r cyfnod yn y carchar i fod yn gwbl effeithiol. Roedd rhai OMUs yn gwneud eu gorau glas i annog swyddog cyfrifol yr NPS i gwblhau'r OASys cychwynol a'r cynllun dedfryd. Roedd CEM Littlehey, dros sawl mis, wedi gwneud pob ymdrech i gael y swyddog cyfrifol cymunedol i gwblhau asesiad OASys.

Ar gyfer troseddwy'r rhyw, arweiniodd diffyg OASys ar ddechrau'r cyfnod yn y carchar at oedi i gael mynediad i raglenni achrededig, ac mewn rhai achosion, symud i garchar arall. Gallai gyflwyno anawsterau pellach wrth weithredu cyfyngiadau priodol ar gyswllt â phlant.

Nid yw'r HMPPS bellach yn disgwyl adolygiadau blynyddol o OASys, ond yn ein barn ni, mae'n arfer da gwneud hyn yn ystod y cyfnod yn y ddalfa, i dystiolaethu newidiadau mewn risg ac anghenion a

dangos y cynnydd a wneir. Yn ôl y data gan un carchar, ni adolygwyd 35% o asesiadau OASys yn y 12 mis diwethaf.

Dylid adolygu asesiadau a chynlluniau OASys yn dilyn newid arwyddocaol (fel adalw i'r carchar). Fodd bynnag, un ymhob tri achos dalfa'n unig adolygwyd yn dilyn y fath newidiadau.

Enghraifft o arfer gwael

Derbyniodd Caleb ddedfryd yn y carchar am dreisio plentyn yn yr hyn a ddisgrifiwyd fel troseddu sy'n gysylltiedig â grŵp. Cafodd ei ryddhau ym mis Awst 2017 ond ei adalw ym mis Mawrth 2018 yn dilyn ei ran mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Ni chwblhawyd asesiad OASys ers iddo gael ei ryddhau yn 2017, er ei fod wedi cael ei adalw i'r carchar ac yn peri risg uchel o niwed i eraill. Roedd goruchwyliwr y troseddwr wedi derbyn un e-bost yn unig gan y swyddog cymunedol sydd â chyfrifoldeb yn y pum mis ers iddo gael ei adalw.

Roedd ansawdd asesiadau'n amrywiol. Roedd gormod yn ailadrodd gwybodaeth o'r asesiad blaenorol yn unig a heb eu diweddarau i adlewyrchu'r cynnydd a wnaethpwyd neu'r materion sy'n codi. Roedd gormod o asesiadau'n dangos diffyg hyder wrth nodi materion penodol sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddu rhywiol a risg o niwed, neu gynllun eglur ynghylch rheoli risg.

Dylai carcharorion fod yn rhan o'r broses o ddatblygu cynllun ystyrlon ar gyfer eu cyfnod yn y ddalffa. Dylent fod yn gwybod yr hyn sydd yn rhaid iddynt wneud i wneud cynnydd a lleihau eu hanghenion sy'n gysylltiedig â throseddu. Roedd gan wyth allan o 29 achos yn unig gynllun dedfryd cyfredol a thri'n unig oedd o ansawdd digonol. Roedd nifer o gynlluniau'n cynnwys amcanion oedd wedi dyddio neu amcanion nad oeddent yn berthnasol bellach, a oedd yn gwneud y cynllun yn ddiwerth. Nid oedd digon o garcharorion â rhan uniongyrchol mewn bwrdd cynllunio dedfryd gyda'u goruchwylydd troseddwr/swyddog prawf y carchar a swyddog cymunedol sydd â chyfrifoldeb, er y canfuwyd rhai enghreifftiau o hyn yn digwydd.

Defnyddir yr asesiad RM2000 fel dangosydd cymhwysedd ar gyfer rhaglenni achrededig Horizon a Kaizen. Canfuwyd gormod o achosion gennym lle na chwblhawyd yr asesiad hwn ac, o ganlyniad, nid oedd modd asesu carcharorion ar gyfer rhaglen achrededig, ac roedd hyn wedi atal eu cynnydd.

Modelau o reoli troseddwr

Roedd yn bryder canfod nad oedd gan rai achosion (gan gynnwys achosion risg uchel o niwed oedd yn agosáu at ddyddiad rhyddhau) swyddog cyfrifol cymunedol yn rhan o'r broses. Canfuwyd gennym fod 13 o 53 achos a oedd i'w rhyddhau'n fuan naill heb eu neilltuo i swyddog sydd â chyfrifoldeb neu wedi'u neilltuo mewn enw'n unig.

Mewn tri o'r carchardai yr ymwelwyd â nhw gennym, roedd yr OMU yn cynnwys swyddogion prawf yn gweithio ar y cyd â goruchwylwyr troseddwr mewn lifrai. Roedd swyddogion prawf yn dueddol o reoli'r achosion risg uwch o niwed a mwy cymhleth, ond mewn rhai o'r safleoedd roedd goruchwylwyr troseddwr mewn lifrai'n rheoli achosion risg uchel o niwed hefyd. Mewn un carchar, gosodir gwaith rheoli troseddwr ar gytundeb; roedd un o'r rhai eraill wedi newid i gael swyddogion prawf yn gweithio ar y cyd â goruchwylwyr troseddwr anweithredol yn hytrach na goruchwylwyr troseddwr mewn lifrai.

Mae Arolygiadau Carchardai EM yn nodi'n rheolaidd y trawsleolir goruchwylwyr troseddwr mewn lifrai yn y ddalffa yn aml i ddyletswyddau gweithredol ledled y carchar. Canfuwyd enghreifftiau o hyn yn ein harolwg. Roedd trawsleoli'n aml yn tanseilio effeithiolrwydd rheoli troseddwr, gan nad oedd digon o amser a chyfleoedd gan y goruchwylwyr troseddwr hynny i fynychu byrddau cynllunio dedfryd neu gyflawni gwaith unigol.

Dywedodd rhai goruchwylwyr troseddwr nad oeddent bob amser yn gwybod pwy oedd ar eu llwyth achosion, a dywedodd un neu ddau wrthym nad oeddent erioed wedi cwrdd â rhai o'u carcharorion.

Roedd prinderau staff yn broblem barhaus ar gyfer rhai OMUs. Roeddent yn aml yn gyfrifol am swyddi gwag ac yn ei chael hi'n anodd llenwi'r swyddi, yn enwedig ar gyfer swyddogion prawf yn y carchar. O ganlyniad, roedd llwyth achosion goruchwylwyr troseddwr yn uchel, yn rheolaidd yn fwy na 60 o achosion cymhleth.

Mewn un carchar yr ymwelwyd ag ef gennym, roedd oedi yn y broses o ddsbarthu carcharorion i oruchwylwyr troseddwr neu swyddog prawf yn y carchar. Canfuwyd tystiolaeth gennym nad oedd gan rai achosion risg uchel o niwed oedd i'w rhyddhau'n fuan oruchwylwyr troseddwr neilltuedig ac fe'u 'goruchwylid' yn unig gan SPO y carchar.

Ansawdd rheoli troseddwr

O ystyried croes leoliadau a llwyth achosion uchel cyson, nid yw'n syndod bod ansawdd rheoli troseddwr yn aml yn wael. Roedd staff OMU yn y mwyafrif o safleoedd yn disgrifio eu dull fel **"ymladd tân"**, ac **"adweithol yn hytrach na rhagweithiol"**.

Dywedodd nifer eu bod yn gallu ymateb i ddigwyddiadau, fel adolygiadau ail-gategoreiddio neu gais am adroddiad MAPPA'n unig, yn hytrach na'u bod yn gallu dod i adnabod y carcharor a chyflwyno gwaith ystyrllon. Roedd ansawdd y rheoli achosion yn well ar y ddau safle oedd â staff rheoli achosion ymroddedig ac anweithredol. Yn CEM Doncaster a CEM Brixton, gallem weld tystiolaeth bod mwy o gyswllt rheolaidd ac ymdrechion da i ymgysylltu â'r carcharorion.

Enghraifft o arfer gwael

Cafodd Jonathan, dyn ifanc, ei anfon i'r carchar am ychydig dros bedair blynedd yn 2016. Roedd y troseddau a gyflawnwyd ganddo'n ddifrifol iawn ac roedd pob un ohonynt wedi'u cyflawni pan oedd yn blentyn.

Roedd wedi cadw'r un swyddog cyfrifol cymunedol am lawer o'i amser yn y ddalfa, ond roedd hyn wedi newid ychydig wythnosau'n unig cyn ei ryddhau, pan ddynodwyd swyddog cyfrifol newydd yn y gymuned iddo. Roedd hyn yn gofidio Jonathan ac ysgrifennodd llythyr digalon iawn, bron yn erfyn am gyswllt a thawelwch meddwl gan ei swyddog cyfrifol newydd. Roedd yn amlwg ei fod yn ansicr am ei gynllun rhyddhau.

Daeth â'r llythyr i ben wrth ddweud "ysgrifennwch yn ôl ataf os gwelwch yn dda", ond er hynny ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth bod y swyddog cyfrifol newydd wedi ceisio dod i'w adnabod cyn ei ryddhau.

Enghraifft o arfer da - Sefydliad Troseddwr Ifanc CEM Aylesbury

Roedd achos Peter wedi'i reoli'n arbennig o dda. Roedd y swyddog cyfrifol cymunedol a swyddog prawf yn y carchar wedi cydweithio'n agos yn y misoedd oedd yn arwain at ei ryddhau, i sefydlu cynllun rhyddhau cadarn. Roedd hyn yn cynnwys bod Peter yn mynd i glinig adsefydlu cyffuriau yn y gymuned, gan fod defnyddio cyffuriau'n gysylltiedig â'i ymddygiad troseddu rhywiol.

Cyfnewid gwybodaeth

Mae cyfnewid gwybodaeth dda a rheolaidd rhwng swyddog cyfrifol yr NPS a'r goruchwylwyr troseddwr yn y carchar yn hanfodol i reoli risg yn effeithiol.

Nid oedd gan bob OMUs fynediad i nDelius, a oedd yn tanseilio cyfnewid gwybodaeth yn dda. Roedd hyn yn peri mwy o bryder pan oedd rhyddhau ar fin digwydd.

Cyflwynwyd cronfa ddata amlasiantaeth ViSOR o dan y *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*. Ei phwrpas yw darparu system i gasglu a rhannu gwybodaeth am RSOs, troseddwyr treisgar sydd wedi'u dedfrydu i fwy na 12 mis yn y ddalfa, ac eraill a ystyrir fel bod yn risg o ymddygiad treisgar neu rywiol. Mae gan y system rôl allweddol yn y ffordd y mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd, ac yn rhannu gwybodaeth ynghylch risg.

Roedd y defnydd o ViSOR yn y ddalfa'n amrywio'n sylweddol. Nid oedd gan rai OMUs fynediad o gwbl felly nid oeddent yn ei defnyddio; roedd gan safleoedd eraill fynediad cyfyngedig ati. Roedd y mwyafrif o safleoedd yn ei defnyddio'n unig i gofnodi'r data lleiafswm sy'n ofynnol gan garchardai yn hytrach na dull gweithredol o reoli achos a rhannu gwybodaeth. Roedd diffyg mynediad i ViSOR mewn nifer o'r OMUs yn golygu nad oedd y cofnodion o gyfarfodydd MAPPA bob amser yn hawdd i'r goruchwylydd troseddwyr neu swyddog prawf y carchar gael mynediad iddynt.

Catégorieiddio a symud ymlaen

Mae adolygiadau o gategoreiddio carcharorion yn penderfynu p'un ai a all unigolyn symud i garchar lle mae'r diogelwch yn is. Canfuwyd gennym y cyflawnwyd y rhain yn ystod y cyfnodau disgwylidig a osodir gan HMPPS. Roedd y mwyafrif o adolygiadau'n glir ac yn darparu argymhelliad y gellir ei gyfiawnhau, ond mewn ychydig, ni chaniatawyd ailgategoreiddio oherwydd nad oedd y carcharor wedi cwblhau rhaglen ymddygiad troseddol. Fodd bynnag, mewn rhai o'r adolygiadau hyn, roedd y carcharor wedi ei ystyried yn anaddas ar gyfer rhaglen ac nid oedd adolygiad yr ailgategoreiddio'n nodi tystiolaeth arall o gynnydd. Roedd diffyg gwaith gwahanol ynghylch ymddygiad troseddol yn golygu nad oedd nifer o garcharorion yn gallu dangos tystiolaeth o leihad mewn risg ac felly roeddent yn ei chael hi'n anodd gwneud cynnydd.

Roedd rhai carchardai'n ei chael hi'n anodd symud dynion ymlaen i'w carchar adsefydlu lleol ar gyfer eu misoedd olaf yn y ddalfa, a dywedwyd wrthym bod rhai carchardai adsefydlu'n anfodlon cymryd troseddwyr rhyw. Ar gyfer carcharorion eraill, roedd y broses o symud ymlaen yn cael ei rhwystro gan y ddarpariaeth gyfyngedig i fynd i'r afael ag anghenion meddygol a gofal cymdeithasol.

Roedd rhaid i'r rhai hynny a gafodd eu derbyn mewn carchar agored aros yn aml am ormod o amser i symud o achos y nifer cyfyngedig o leoedd. Roedd oedi'n achosi i'r carcharor fod heb amser i symud, a oedd yn gyfle a gollwyd i'w helpu i baratoi ar gyfer rhyddhau.

Diogelu'r cyhoedd yn y carchar

Dylid asesu carcharorion sy'n peri risg i blant (PPRC – Unigolion sy'n Peri Risg i Blant) neu oedolyn hysbys (HPPM - Mesurau Diogelu'r Cyhoedd Rhag Aflonyddu) wrth gyrraedd y carchar a lle bo'n berthnasol ni ddylent fod yn gallu cysylltu ag unrhyw blentyn neu oedolyn penodol.

Mae'r asesiad cyntaf yn ystyried euogfarnau cyfredol a blaenorol. Pan fo risgiau i blant neu oedolyn hysbys yn amlwg yn seiliedig ar dystiolaeth wrth eu dyfarnu'n euog, hysbysir y carcharor na fydd yn gallu cael cyswllt heblaw ei fod yn gwneud cais ac asesir y risgiau gan wasanaethau'r carchar, gwasanaethau plant a'r NPS. Canfuwyd gwendidau gennym yn y maes pwysig hwn o reoli troseddwyr, ac ni nodwyd risgiau i eraill bob amser yn gywir.

Fel o'r blaen, roedd diffyg OASys yn tanseilio gallu staff y carchar i wneud asesiad trylwyr o risg i benderfynu a ddylid caniatáu cyswllt. Mewn rhai carchardai, roedd asesiadau cychwynnol carcharorion PPRC potensial yn wan. Nid yw'n eglur yn llawlyfr diogelu'r cyhoedd pa ffactorau y dylid eu hystyried wrth nodi PPRCs. Mewn un carchar, cyfyngwyd yr asesiad i euogfarnau cyfredol a blaenorol yn unig, ac nid oedd yn ystyried gwybodaeth ehangach ynghylch risgiau potensial neu barhaus.

Enghraifft o arfer gwael

Roedd Trevor wedi gallu cysylltu â dioddefwr wrth ddefnyddio cyfrif ffôn carcharor arall, ac roedd ymateb y carchar yn rhy araf i atal y dioddefwr rhag dioddef ymhellach. Yn groes i'r disgwyliad, roedd y broses o fonitro post a ffôn achosion PPRC a HPPM ar ôl cyrraedd y carchar hwnnw wedi dod i ben, a oedd yn gadael dioddefwyr a dioddefwyr potensial yn agored i gam-drin pellach.

Mewn pedwar carchar, roedd y broses o fonitro post a ffôn yn cael ei defnyddio'n briodol a gyda'r awdurdod cywir. Roedd y carchardai'n adolygu'r angen i barhau monitro'n rheolaidd hefyd. Fodd bynnag, mewn un carchar, roedd adolygiadau'n cael eu gwneud gan weinyddwyr achos yn hytrach na goruchwylwyr troseddwy neu swyddogion prawf. Ni ellir cyfiawnhau hyn, gan fod angen asesiad risg proffesiynol. Mewn carchar arall, nid oedd monitro'n digwydd o gwbl.

Roedd ceisiadau a wnaed gan garcharorion i gael cyswllt â phlant penodol yn cael eu trin mewn ffordd briodol, ond roedd rhai o'r rhain yn cymryd gormod o amser i'w cwblhau oherwydd yr oedi i gael ymateb gan wasanaethau plant a'r NPS.

Rheoli risg a chynllunio ar gyfer rhyddhau

Mae llawlyfr diogelu'r cyhoedd a gyhoeddwyd yn 2016 yn datgan bod rhaid i garchardai sicrhau y rhennir gwybodaeth ynghylch asesiadau risg a rheoli risg rhwng adrannau o fewn y sefydliad, ac y cydlynir y wybodaeth honno ynghylch troseddwy risg uchel mewn cyfarfodydd Tîm Rheoli Risg Rhyngadrannol (IRMT).

Mae arweiniad MAPPA 2012 (a ddiweddarwyd ym mis Tachwedd 2017) yn cadarnhau bod rhaid i'r carchar sicrhau bod gwybodaeth o'r IRMT yn cael ei throsglwyddo i'r swyddog cyfrifol cymunedol ac yn cael ei hymgorffori yn y broses cynllunio dedfryd. Rhaid i'r carchar hysbysu'r heddlu hefyd.

Roedd gan bob carchar IRMT, ond ymhob safle yr ymwelwyd ag ef gennym canfuwyd gwendidau gennym yn nhrefniadau'r cyfarfod. Un IRMT yn unig oedd yn adolygu pob achos risg uchel oedd i gael eu rhyddhau'n fuan; roedd y gweddill yn adolygu'r rhai a reolir ar Lefel 2 a 3 MAPPA yn unig. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr IRMT wedi rheoli achosion risg uchel ar Lefel 1 MAPPA a'r rhai na neilltuwyd lefel rheoli MAPPA iddynt.

Roedd presenoldeb yn y mwyafrif o'r IRMTs yn wael. Ychydig o adrannau ledled y carchar oedd yn anfon cynrychiolydd, a oedd yn tanseilio swyddogaeth yr IRMT fel corff sy'n rhannu gwybodaeth ledled y carchar. Ni ofynnwyd yn arferol i swyddogion cyfrifol cymunedol gymryd rhan yn yr IRMT ac ni anfonwyd cofnodion y cyfarfod atynt yn arferol. Ar y cyfan, nid oedd yr IRMTs yn effeithiol. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth bod y cyfarfodydd yn gwneud gwahaniaeth o ran cynllunio rheoli risg.

Gyda rhai eithriadau nodedig, roedd cynllunio ar gyfer rhyddhau'n wael. Dim ond saith o'r 29 achos a arolygwyd oedd â chynllun rheoli risg wedi'i baratoi ar gyfer rhyddhau, a thri o'r rhain yn unig oedd yn gynhwysfawr. Nid oedd nifer digonol o swyddogion cyfrifol yn rhan o'r cynllunio yn y chwe mis olaf cyn rhyddhau. Roedd nifer heb fod yn rhan o'r cyfarfod cyn rhyddhau gyda'r carcharor a goruchwyllydd y carcharor.

Ymyriadau ymddygiad troseddol strwythuredig

Pennu'r llwybr triniaeth gorau ar gyfer ymddygiad troseddol

Dylai llwybr triniaeth sydd wedi'i ddatblygu'n dda gynnwys ystod o ymyriadau ymarferol a chyfyngol a fwriedir i leihau'r risg o niwed neu'r tebygolrwydd o aildroseddu. Canfuwyd gennym fod gorddibyniaeth ar ddefnyddio rhaglenni achrededig yn y carchar ar gyfer rheoli troseddwy'r rhyw sydd wedi'u dyfarnu'n euog yn y carchar, ac ychydig iawn o ystyriaeth a roddir i achosion unigol ynghylch sut gallai gweithgareddau eraill yn y carchar gyfrannu at leihau risgiau ar ôl rhyddhau. Tra roedd rhai cynlluniau dedfryd yn cynnwys amcanion sy'n gysylltiedig ag addysg, gwaith neu hyfforddiant, roedd yn aml yn anodd gweld sut y byddai'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at leihau'r risg o niwed yn y dyfodol.

Heb asesiad OASys a chynllun dedfryd diweddar, roedd yn anodd sefydlu'r llwybr triniaeth gorau i rai dynion. Gallai rhai carcharorion dreulio eu holl amser yn y carchar heb wneud unrhyw ymyriadau strwythuredig i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol, megis datblygu eu cryfderau personol, gosod nodau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol a gwneud y cysylltiad rhwng eu hagweddau, meddylfryd ac ymddygiad â'u troseddu.

Rhaglenni achrededig ar gyfer troseddwy'r rhyw yn y ddalfa

Targedir rhaglenni achrededig at garcharorion sydd â risg canolig neu uchel o gael eu hail-ddyfarnu'n euog gan ddefnyddio RM2000. Ni fyddai'r rhai hynny a ystyrir i fod yn risg isel o gael eu hail-ddyfarnu'n euog yn gymwys ar gyfer rhaglen heblaw bod rhesymau â thystiolaeth gadarn i anwybyddu categori'r RM2000.

Roedd tri o'r pum safle yr ymwelwyd â nhw'n cyflwyno peth o'r gyfres newydd o raglenni troseddu rhywiol. Nid oedd rhestrau aros yn y carchardai hyn yn ormodol ac roedd achosion yn cael eu blaenoriaethu'n briodol.

Ar adeg yr adolygiad thematig hwn, nid oedd dau garchar yn cyflwyno rhaglenni achrededig i droseddwy'r rhyw er eu bod yn dal cyfran fawr o garcharorion a ddyfarnwyd yn euog o'r troseddau hynny. Roedd un wedi'i neilltuo fel carchar adsefydlu penodedig, felly ni ddylai fod angen cyflwyno'r rhaglenni hyn, ond roedd angen un ar 20% o'r carcharorion. Roedd y carchar arall yn cynllunio cychwyn cynnal Horizon yn fuan ar ôl i ni ymweld, ond roedd y data a ddarparwyd i ni'n dangos na fyddai dwy ran o dair o'r carcharorion a gafodd eu dedfrydu'n euog o drosedd rhyw yn addas ar gyfer y rhaglen hon oherwydd iddynt gael eu hasesu fel bod yn risg isel o gael eu hail-ddedfrydu'n euog.

Nid oedd gan un carchar raglenni ar gyfer y rhai hynny ag anabledau dysgu a heriau dysgu, er ei fod yn dal cyfran fawr o garcharorion a ddyfarnwyd yn euog o droseddau rhyw oedd ag anawsterau o'r fath.

Roedd staff a oedd yn cyflwyno rhaglenni achrededig yn rhoi sylw arbennig i asesu anghenion triniaeth unigolion. Cynhaliwyd asesiad anghenion rhaglen (PNA) ganddynt ar gyfer carcharorion risg uchel ac uchel iawn i benderfynu pa raglen oedd y fwyaf addas, ac roeddent yn annog symud carcharorion i garchar arall lle roedd rhaglen ar gael.

Canfuwyd cyfran sylweddol o droseddwy'r rhyw gennym yn ein sampl a oedd wedi'u hasesu fel bod yn risg isel o gael eu hail-ddedfrydu, yn seiliedig ar RM2000, ac felly fe'u hystyriwyd yn addas ar gyfer rhaglen achrededig. Roedd rhesymau eraill yr ystyriwyd carcharorion yn anaddas, yn cynnwys y ffaith nad oedd digon o amser ganddynt yn weddill yn y ddalfa, eu bod yn amharod i gymryd rhan yn y grŵp neu am fod ganddynt broblemau iechyd neu faterion personol eraill a oedd yn eu hatal rhag cymryd rhan.

Ymyriadau eraill

Ychydig o amser oedd gan oruchwylwyr troseddwy'r a swyddogion prawf y ddalfa i gyflwyno gwaith unigol strwythuredig a fwriadwyd i leihau risg o niwed a'r tebygolrwydd o aildroseddu. Nid oedd gan y mwyafrif o oruchwylwyr troseddwy'r mewn lifrai neu'r rhai nad oeddent yn weithredol unrhyw hyfforddiant benodol i gyflawni'r fath waith. Dangosodd cofnodion achosion nad oedd digon o waith yn cael ei gyflawni gyda'r rhai hynny nad oedd yn addas ar gyfer rhaglenni, ychydig o waith a

fwriadwyd i ysgogi'r carcharor ac ychydig o ganolbwynt ar atgyfnerthu'r gwersi a addysgwyd ar raglenni achrededig.

Ychydig iawn o becynnau adnoddau oedd ar gael i gefnogi ymarferwyr wrth gyflwyno ymyriadau unigol. Roedd rhai swyddogion prawf y carchar yn gwybod am becyn Maps for Change, ac yn ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd. Roedd rhai ymarferwyr yn ymwybodol o becyn cymorth oedd ar gael trwy HMPPS a elwir yn Identity Matters. Rhaglen yw hon sydd wedi'i thargedu ar gyfer pobl sydd wedi cyflawni trosedd trwy eu cysylltiadau â grŵp. Er nad yw wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer y rhai hynny sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw, gallai fod yn addas i rai pobl.

I fynd i'r afael â'r diffyg opsiynau i raglenni achrededig eraill, roedd CEM Littlehey wedi datblygu dogfen arweiniol ddefnyddiol a gefnogwyd gan becyn cymorth a ddatblygwyd yn lleol i strwythuro gwaith mwy ystyrion gyda'r rhai hynny sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw.

Roedd dau safle'n cyflwyno'r Llwybr Personoliaeth Troseddwr (OPD), prosiect ar y cyd â'r HMPPS a'r GIG. Yn CEM Aylesbury, darparodd y prosiect 'llwybr' amrywiaeth arbennig o ymyriadau strwythuredig sy'n gysylltiedig â throseddu ar gyfer y rhai hynny nad oeddent yn addas ar gyfer rhaglenni achrededig neu i ysgogi'r rhai hynny ymhellach a oedd yn gwneud neu wedi gwneud un.

Enghraifft o arfer gwael

Roedd Lawrence yn garcharor hir-dymor, risg uchel a oedd yn ansicr am ei gynllun rhyddhau. Roedd yn ofnus ac yn gofidio am fod ar ei ben ei hun yn y gymuned. Esboniodd ei fod eisiau derbyn cefnogaeth a chael help mewn modd ymarferol. Un o'i rwystredigaethau mwyaf oedd y diffyg trafod ynghylch ei gynllun rhyddhau. Esboniodd "nad oes neb yn eistedd a siarad â chi" ac "mae'n fy mhryderu i'n fawr".

Cefnogaeth adsefydlu

Ym mhedwar o'r pum carchar yr ymwelwyd â nhw gennym, roedd darpariaeth adsefydlu CRC yn cael ei hariannu gan brosiectau Trwy'r Giât. Nod y ddarpariaeth hon yw darparu troseddwr rhyw â chynllun adsefydlu wrth gyrraedd y ddalfa, adolygu'r cynllun 12 wythnos cyn iddynt gael eu rhyddhau a mynediad i help adsefydlu sylfaenol.

Roedd ansawdd y ddarpariaeth yn amrywio'n fawr. Roedd gan y mwyafrif o CRCs brinderau staff, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd ymdopi â'r nifer a therfynau amser cynlluniau adsefydlu.

Mewn un safle, roedd cytundeb y CRC wedi'i gyfyngu i wneud atgyfeiriadau o fewn y carchar 12 wythnos cyn rhyddhau. Cydnabu'r carchar hwn nad oedd y model hwn yn effeithiol gan, erbyn i rywun fod mor agos â hyn i gael ei ryddhau, maent wedi cael mynediad i amrywiaeth o ddarpariaeth o fewn y carchar, gan gynnwys cefnogaeth iechyd meddwl a help camddefnyddio sylweddau.

Roedd y ddarpariaeth a oedd ar gael i RSOs wedi'i chyfyngu gan gytundebau cytundebol. I garcharor dderbyn help y tu hwnt i'r gefnogaeth adsefydlu sylfaenol iawn, roedd angen i'w swyddog cyfrifol NPS ei brynu gan y CRC. Yn anaml roedd swyddogion cyfrifol yn prynu'r gwasanaethau ychwanegol hyn, ac roedd hyn yn arwain at fethu ateb rhai anghenion adsefydlu.

Roedd diffyg cyfathrebu rhwng CRCs a goruchwylwyr troseddwr. Mewn un carchar, roedd gweithiwr achos y CRC yn cyfweld carcharorion a aseswyd fel rhai oedd yn peri risg uchel o niwed i eraill heb unrhyw wybodaeth am eu trosedd neu'r risgiau yr oeddent yn eu peri.

Mae rhai CRCs yn darparu rhaglen adsefydlu, ond ni chafodd ei chyflwyno i droseddwr rhyw yn y safleoedd yr ymwelsom â nhw.

Llety wedi rhyddhau

Mae diffyg llety addas ar gyfer carcharorion a gafodd eu rhyddhau o'r ddalfa'n broblem yn genedlaethol. O ystyried y cynnydd mewn dynion a ddyfarnwyd yn euog o droseddau rhyw, nid oes digon o leoedd addas nawr mewn safleoedd cymeradwy (APs) i bob un ohonynt gael llety wedi'u rhyddhau. Daeth arolwg diweddar Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ynghylch rôl a defnydd APs i'r casgliad fod diffyg o tua 25% (Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, 2017). Adroddodd tri o'r pum carchar a ymwelwyd am ddiffyg lle mewn safleoedd cymeradwy ac am atgyfeiriadau a gafodd eu gwneud mor agos at y cyfnod rhyddhau fel nad oedd lle ar gael. Ar ben hynny, nid oedd digon o leoedd ar gyfer y rhai hynny ag anableddau gofal cymdeithasol neu anabledd. Roedd dod o hyd i gartrefi gofal i reoli dynion a ryddhawyd gyda lefel uchel o anghenion gofal cymdeithasol yn broblem gynyddol, o ystyried y boblogaeth sy'n heneiddio mewn carchar. Mae'r broblem hon y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr HMPPS ac yn gofyn am ymateb cenedlaethol, cyd-asiantaethol a llywodraethol.

Mewn un achos risg uchel o niwed, daethpwyd o hyd i lety ar y funud olaf i garcharor mewn lloches nos, ond am ddwy noson yn unig. Gwelwyd dwy enghraifft bellach gennym o ddynion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw yn cael eu rhyddhau i westai pris rhesymol neu lety dros dro arall. Roeddem yn ei chael hi'n anodd ystyried sut y gallai'r fath lety gael ei gyfiawnhau yn nhermau diogelu'r cyhoedd. Mae preswylwyr gwestai'n debygol o fod yn westeion dros dro ac mae monitro agos o'r troseddwr yn broblem.

Enghraifft o arfer gwael

Roedd Jack, dyn oedd ag anableddau arwyddocaol, wedi treulio pedair mlynedd yn y carchar ac ar fin cael ei ryddhau. Nid oedd y swyddog cyfrifol erioed wedi cwrdd â Jack ond roedd wedi trefnu lle mewn safle cymeradwy, o ystyried ei risg uchel o niwed i eraill. Methodd y lleoliad hwn pan, tair wythnos yn unig cyn cael ei ryddhau, sylweddolodd y swyddog cyfrifol nad oedd yr ystafell oedd ar gael yn cwrdd ag anghenion anabledd Jack. Cafodd ei ryddhau i westy pris rhesymol yn lle hynny.

Ar ôl i Jack gael ei ryddhau o'r carchar, dengys y cofnod achos ei fod wedi derbyn ymweliad yn y gwesty pris rhesymol gan aelod o staff yr NPS. Adroddodd nad oedd ganddo unrhyw arian a bod chwant bwyd arno. Ddwy wythnos ar ôl iddo gael ei ryddhau roedd disgwyl iddo symud o'r gwesty pris rhesymol i'w symud i un arall, oherwydd na chanfuwyd llety mwy addas o hyd.

3.2 Casgliadau a goblygiadau

Roedd llawer o'r gwaith a gyflwynwyd i droseddwr rhyw yn y ddalfa'n wael.

Nid yw staff sy'n gweithio gyda throseddwr rhyw yn y ddalfa wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n ddigon da i gyflawni gwasanaeth sy'n diogelu'r cyhoedd a lleihau risg o niwed. Roedd symud troseddwr rhyw o gwmpas stad y carchardai i gael mynediad i ymyriadau addas yn broblem, ac roedd hyn yn effeithio ar allu dynion i wneud cynnydd. Roedd cyfleoedd i symud i amodau agored yn gyfyngedig oherwydd diffyg lleoedd oedd ar gael.

Lle nad oedd dynion wedi cael mynediad i raglen achrededig troseddu rhywiol, roedd gwaith unigol annigonol yn cael ei gyflawni. O ganlyniad, mae'n bosibl cwblhau dedfryd yn y carchar heb gyflawni gwaith cyn rhyddhau.

Nid oedd cynllunio ar gyfer rhyddhau, gan gynnwys y defnydd o IRMT a MAPPA, yn cael ei reoli'n dda. Ni chafwyd gwaith da ar y cyd rhwng staff yr NPS yn y gymuned a thimau rheoli troseddwr yn y carchar mewn nifer o achosion, gan arwain at gynlluniau rheoli risg a rhyddhau gwael. Roedd diffyg llety addas ar gyfer troseddwr rhyw yn rhwystro adsefydlu.

Bydd prosiect yr OMIC yn mynd i'r afael â rhai o'r agweddau a'r meysydd sydd i'w gwella a godir yn yr adroddiad hwn, ond ni fydd yn mynd i'r afael â phob un.

4. Gwaith a gyflwynir gan yr NPS i leihau aildroeddu

Yn y bennod hon rydym yn adrodd ynghylch sut mae'r NPS yn pennu, asesu, cynllunio a chyflwyno gwaith i ddynion sydd wedi'u dedfrydu'n euog o droseddau rhyw.

4.1 Yr hyn a ganfuwyd gennym

Asesiad o ddynion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw

Mae staff llys yr NPS neu awduron adroddiad cyn eu dedfrydu yn cwblhau asesiadau Risk Matrix 2000 (RM2000) cyn i ddynion gael eu dedfrydu am eu troseddau. Yna, mae gofyn i swyddogion sydd â chyfrifoldeb gwblhau OASys o fewn 15 niwrnod o ddedfrydu'r carcharor, ac ARMS o fewn 6 wythnos, ac yna adolygu asesiad yr OASys ar ôl cwblhau'r ARMS. Yna, dylai'r swyddog cyfrifol adolygu'r OASys a'r ARMS yn rheolaidd i sicrhau bod gwybodaeth yn aros yn ystyrlon ac yn gywir o ystyried amgylchiadau newidiol.

Roedd gan bron pob un o asesiadau arbenigol RM2000 a arolygwyd gennym lefel gywir o risg wedi'i chofnodi. Canfuwyd rhai asesiadau gennym lle roedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i hysbysu'r raddfa gyffredinol yn anghywir; fodd bynnag, nid oedd y gwallau hyn yn effeithio ar y lefel risg a aseswyd.

Pan y'u haseswyd ar wahân, roedd yr asesiadau OASys cychwynnol yn ddigonol mewn 82% o'r achosion. Nid oedd rhai asesiadau'n canolbwyntio'n ddigonol ar droseddu rhywiol ac mewn rhai eraill nid oedd y dynion wedi bod yn rhan o'r broses o'u cwblhau.

Roedd asesiadau ARMS wedi'u cwblhau gan yr NPS mewn tri chwarter o'r achosion a arolygwyd. Ychydig dros hanner yn unig a gwblhawyd mewn pryd. Roedd ansawdd asesiadau ARMS yn amrywio'n arwyddocaol, ond yn gyffredinol nid oeddent yn ddigon cynhwysfawr. Nid oedd dull sicrhau ansawdd yn cael ei ddefnyddio, neu unrhyw ddull monitro safonol a oedd asesiadau wedi'u cwblhau. Roedd nifer a welwyd gennym yn arwynebol a heb dystiolaeth bod swyddogion wedi archwilio meysydd yn llawn megis diddordeb rhywiol, cyfle i aildroeddu ac ymrwymiad i roi'r gorau i droseddu.

I nifer o swyddogion sydd â chyfrifoldeb, ystyrir y dasg o gwblhau asesiad ARMS fel "**rhywbeth ychwanegol**", "**tasg i'r heddlu**" neu "**flwch i'w dicio**", yn hytrach na bod yn rhan hanfodol o asesiad risg o ansawdd da. Canfuom sawl aelod o staff a oedd yn teimlo bod llawer iawn o ddyblygu, wedi cwblhau asesiad yr OASys yn barod.

Pan oedd staff yn deall perthnasedd ARMS yn llwyr, roedd ganddynt well dealltwriaeth o'r sbardunau am, a'r ffactorau sy'n gysylltiedig â, throseddu rhywiol yr unigolyn. Yn gyffredinol, fodd bynnag, canfuwyd gennym fod ARMS wedi'i gwblhau ar wahân, ac mewn ychydig dan dri chwarter o achosion ni chafodd ei ddefnyddio i hysbysu asesiadau eraill neu gyflwyno'r gwaith.

Roedd cwblhau asesiadau ARMS, a dadleuon ynghylch pa asiantaeth oedd yn gyfrifol am beth, wedi effeithio perthynas cydweithio â'r heddlu. Mynegodd staff o'r heddlu yn ogystal â'r gwasanaeth prawf eu rhwystredigaeth gyda'r broses.

Roedd defnyddio dulliau asesu lluosog, ar adegau gwahanol, yn drafferthus. Yn anaml roedd ARMS, lle roedd yn cael ei gwblhau, yn arwain at adolygiad o'r asesiad OASys, yn ôl y gofyn. Yn gyffredinol, pan ystyriwyd asesiadau a oedd yn defnyddio pob un o'r tri dull gennym, gwelsom eu bod yn annigonol mewn traean o'r achosion.

Cynllunio gwaith i'w gyflwyno i ddynion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw

Yn gyffredinol, canfuwyd gennym fod cynlluniau'n ddigon da i gefnogi ymataliaeth yn y mwyafrif o achosion. Nid oedd hyn, fodd bynnag, bob amser yn arwain at gyflwyno ymyriadau addas.

Nid oedd dros draean o gynlluniau a arolygwyd yn canolbwyntio'n ddigonol ar yr ymyriadau, gweithgareddau a gwasanaethau a oedd yn fwyaf tebygol o leihau troseddu rhyw. Mewn chwarter o achosion, nid oeddent yn ddigon clir ynghylch natur, patrwm a'r math o gyswllt a oedd ei angen i gyflwyno'r gwaith.

Ychydig iawn o dystiolaeth a ganfuwyd gennym fod cynlluniau wedi ystyried blaenoriaethu ymyriadau. Mewn traean o achosion, methodd cynlluniau yn ogystal ag asesiadau gynnwys dynion yn y broses yn ddigonol, ac nid oedd nifer yn ystyried elfennau cyfyngol a rheolaeth allanol. Mewn gormod o achosion, nid oedd cynlluniau'n ystyried anghenion cysylltiedig ag amrywiaeth ac amgylchiadau personol dynion, neu eu lefelau cymhelliant a pharodrwydd i newid.

Roedd swyddogion sydd â chyfrifoldeb yn dueddol o flaenoriaethu achosion cymunedol cyn y rhai hynny oedd i'w rhyddhau o'r ddalfa, ac mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau yn y carchar. Yn anaml roedd gwybodaeth o'r carchar yn cael ei chynnwys mewn cynlluniau rhyddhau a dedfryd. Collir cyfle yma i ganfod cynnydd yr unigolyn yn briodol yn ogystal ag unrhyw ymddygiad sy'n achosi pryder.

Disgrifiodd swyddogion sydd â chyfrifoldeb yn y gymuned brofiad anghyson o oruchwylwyr troseddwyd yn y ddalfa, ac anawsterau cysylltu â'r unigolyn cywir. Mae hyn yn adlewyrchu'r farn a fynegwyd gan staff y ddalfa ac yn amlygu anawsterau sylweddol gyda'r berthynas allweddol hon.

Enghraifft o arfer gwael

Cafodd Neil ei ddedfrydu i garchar am ymosod yn rhywiol ar blentyn o dan 13 oed. Cafodd ei ryddhau i fyw gyda'i fam ym mis Hydref 2017 ac fe'i rheolwyd ar MAPP A Lefel 1. Roedd ei deulu'n cydgyllwynio ag ef nad oedd wedi troseddu ac roedd pryderon ynghylch ei fynediad i blant.

Er iddo gael ei asesu fel rhywun oedd yn peri risg uchel o niwed, roedd y broses o gynllunio'r gwaith oedd i gael ei ddarparu a'r rheolaeth ar yr achos yn dibynnu'n ormodol ar ei hunan-ddatganiad a'i gydweithrediad gydag apwyntiadau. Cwblhawyd OASys ac ARMS, ond ni chynhwyswyd y gwaith gan asiantaethau eraill yn y cynllun rheoli risg.

Torrodd Neil ei amodau trwydded yn y pen draw i beidio â chael cyswllt heb oruchwyliaeth gyda phlentyn o dan 16 oed. Arweiniodd y toriad at rybudd ac ni chafwyd camau pellach.

Enghraifft o arfer da – Bedford

Cafodd Kevin ei ddedfrydu i 30 mis yn y carchar am bedwar achos o ymosod rhywiol. Nid oes ganddo gollfarnau blaenorol ac mae'n gwadu'n ei drosedd.

Cyn i Kevin gael ei ryddhau o'r ddalfa, roedd y swyddog cyfrifol wedi cwblhau llawer iawn o waith cynllunio cyn rhyddhau, gan gynnwys rhai ymweliadau wyneb yn wyneb yn y carchar i esbonio'r hyn a ddisgwyliid gan Kevin wedi iddo gael ei ryddhau.

Wedi iddo gael ei ryddhau o'r ddalfa, rheolwyd achos Kevin yn dda a nodwyd ac aethpwyd i'r afael â phob ffactor risg ac angen drwy gamau gweithredu ar ei gynllun rheoli risg yn ogystal â dedfryd. Gwnaethpwyd atgyfeiriadau addas i wasanaethau plant. Cafwyd ymweliad ar y cyd â'r heddlu a gosodwyd ymyriadau addas, er i Kevin wrthwynebu a gwadu'n barhaus.

Ymyriadau a gyflwynir i ddynion a ddyfarnwyd yn euog o droseddau rhyw

O ystyried y bylchau a nodwyd mewn asesiadau a chynlluniau, nid yw'n syndod bod diffyg yn y nifer o ymyriadau a gyflwynwyd, mewn gwaith grŵp yn ogystal ag unigol, mewn nifer o achosion. Canfuwyd gennym mewn 40% o achosion na chafwyd unrhyw waith a oedd yn canolbwyntio ar leihau'r risg o droseddu rhywiol o gwbl, ac mewn ychydig o dan ddwy draean o achosion ni wnaethpwyd cynnydd digonol. Nid oedd digon o ddynion wedi cael y cyfle i leihau eu risg o droseddu'n rhywiol neu i archwilio'r ffactorau yn eu bywyd a oedd yn debygol o'u hatal rhag troseddu yn y dyfodol.

Rhaglenni achrededig

Mae'r wybodaeth fwyaf diweddar sydd ar gael gan yr NPS ynghylch y nifer sydd wedi cwblhau'r rhaglenni troseddwr rhyw ar gyfer 2016/2017 ac mae hon yn gysylltiedig â'r rhaglen SOTP. Mae'r data ynghylch cwblhau rhaglenni achrededig, gan gynnwys rhaglenni troseddu rhywiol, ar gyfer 2017/18 yn anghyflawn ac heb eu cyhoeddi.

Cyflwynwyd Horizon yn yr holl safleoedd yr ymwelom â nhw, ac roedd rhai ardaloedd yn dal i gwblhau'r olaf o'r rhaglenni etifeddiaeth. Roedd mynediad i raglenni'n broblem i rai dynion. Mewn rhai ardaloedd, canfuwyd gennym fod rhaid i ddynion ddewis rhwng gwaith a mynychu'r rhaglen. Ar ben hynny, nid oedd y rhaglen ar gyfer y rhai hynny ag anabledau dysgu wedi'i chyflwyno ym mhob ardal.

O'r achosion a adolygwyd, roedd gan 42 amod trwydded neu ofyniad i gwblhau rhaglen achrededig. Mewn 26 o achosion, enwyd Horizon, tra mewn 16 o achosion ni chafwyd cyfeiriad penodol at y rhaglen. Canfuwyd 17 o achosion yn unig gennym lle roedd rhaglen achrededig wedi cychwyn.

Lle nad oedd gan ddynion amod neu ofyniad trwydded i gwblhau rhaglen achrededig, yn anaml roedd swyddogion sydd â chyfrifoldeb yn ystyried gwneud atgyfeiriad, er y tebygolrwydd y byddai nifer o achosion wedi bod yn addas. Nid oedd gan y mwyafrif o dimoedd rhaglenni broses i adolygu achosion addas posibl, ac roeddent yn dibynnu'n unig ar atgyfeiriadau yn cael eu gwneud gan swyddogion sydd â chyfrifoldeb. Tra bod y defnydd o wrth-wneud clinigol gan reolwyr triniaeth yn cael ei reoli'n dynn, gwelwyd rhai achosion gennym lle y byddai wedi bod yn briodol a lle y gallai dynion elwa o gymryd rhan mewn rhaglen.

O dan E3, adolygwyd proffil staffio'r tîm rhaglenni achrededig ac yn y mwyafrif o achosion lleihawyd y nifer o diwtoriaid rhaglenni. Mae hyn wedi golygu bod llai o staff yr NPS wedi dilyn yr hyfforddiant i gyflwyno rhaglenni troseddu rhyw na fyddai wedi gwneud hynny yn flaenorol. Yr effaith a gafwyd yw lleihad cyffredinol yn y sylfaen gwybodaeth ar gyfer cyflwyno rhaglenni troseddwr rhyw ledled y sefydliad.

Roedd timau rhaglenni'n aml yn disgrifio gweithio ar eu pen eu hun. Adroddwyd ganddynt fod llai o gydweithio gyda thimau rheoli troseddwy'r nag a gafwyd yn y gyfres flaenorol o raglenni achrededig, a phroffil staffio cyn E3. Roedd gan staff rhaglenni well dealltwriaeth o lawer o'r dull sy'n seiliedig ar gryfderau na chydweithwyr sy'n swyddogion cyfrifol. Fodd bynnag, roedd gan nifer amheuaeth am ddeunydd y rhaglen, ac yn ein barn, byddent yn manteisio ar fewnbwn pellach ynghylch y dull.

Cyfarfuom â rhai hwyluswyr rhaglenni ymrwymedig, medrus mewn rhai ardaloedd, ond mewn ardaloedd eraill canfuom ddiffyg sgiliau gan yr hwyluswyr. Roedd yn glir eu bod yn gweithio'n gynyddol wahanol i dimau rheoli troseddwy'r, yn hytrach na gyda nhw.

Roedd staff rhaglenni'n poeni gallai eu sgiliau unigol a'u gwybodaeth am droseddu rhyw leihau dros amser, o ystyried nad yw Horizon, yn wahanol i SOTP, yn cynnwys ymarferion sy'n canolbwyntio ar droseddu rhyw. Roeddent yn dweud nad oeddent bellach yn gallu cyflwyno gwaith unigol i droseddwy'r rhyw i gefnogi swyddogion sydd â chyfrifoldeb, ac nad oeddent chwaith yn gallu roi arweiniad a hyfforddiant i gydweithwyr.

Dywedodd rhai o'r staff rhaglenni eu bod wedi addasu'r rhaglen fel ei bod yn fwy addas i anghenion y dynion roeddent yn gweithio gyda nhw. Roedd hyn yn cynnwys datgelu troseddu mewn rhai enghreifftiau, sydd â'r potensial i danseilio'r dull sy'n seiliedig ar gryfderau Horizon, os nad yw wedi'i wneud yn ddigon da.

O ystyried y cyfnod byr y mae Horizon wedi'i chynnal yn y gymuned, nid oes gwerthusiad ffurfiol o'i heffeithiau wedi ei gynnal, er bod gwerthusiad o'r broses wedi'i gyhoeddi.

Roedd recordio cyflwyno rhaglenni ar fideo yn broblem mewn rhai ardaloedd oherwydd nad oedd offer addas ar gael, er bod ychydig o waith monitro'n cael ei wneud ymhob ardal gan reolwyr triniaeth, yn aml drwy arsylwi uniongyrchol.

Ymyriadau unigol

Lle roedd staff yn cyflwyno gwaith unigol gyda throseddwy'r rhyw, roedd amrywiaeth ac ansawdd y gwaith yn amrywio'n arwyddocaol. Roedd swyddogion sydd â chyfrifoldeb yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, pecynnau a etifeddwyd yn aml, ac yn defnyddio'r rhain yn bennaf mewn modd rhagweithiol yn hytrach na modd a ystyriwyd ac a gynlluniwyd. Nid oedd gan rai swyddogion sydd â chyfrifoldeb gywreinerwydd proffesiynol, gan dderbyn adroddiadau dynion am amgylchiadau a digwyddiadau heb wirio ffynonellau eraill. Roedd rhai'n delio ag amrywiaeth o argyfyngau neu faterion eraill yn fwy aml na chanolbwyntio ar droseddu rhyw a rheoli risg, mewn sesiynau goruchwylio.

Pan ofynnwyd iddynt pam eu bod yn defnyddio offer penodol, yr ateb oedd, "***am fy mod wedi gwneud hynny erioed***", ac "***mae wedi gweithio i mi yn y gorffennol***".

Mae Maps for Change yn ymyriad unigol, wedi'i danategu gan y dull sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae ar gyfer achosion lle mae'r sgôr RM2000 a aseswyd yn isel, ond gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer achosion risg canolig ac uchel. Fe'i cyflwynwyd gyda hyfforddiant cyfyngedig i staff, ac ni chanfuom unrhyw fonitro cenedlaethol o'r pecyn, neu unrhyw broses gwerthuso a adnabuwyd. Monitrodd rheolwyr yng Ngogledd Cymru ddefnydd y dull; fodd bynnag, roeddent eto i'w ymestyn i gynnwys sicrhau ansawdd. Yn gyffredinol, yn yr achosion a arolygwyd gennym, canfuwyd gennym fod Maps for Change wedi'i defnyddio mewn llai nag un mewn chwech. Dywedwyd wrthym y bydd mesur newydd a fydd yn monitro defnyddio'r dull, sydd i'w goresawu.

Dywedwyd wrthym gan dîm Polisi Troseddwy'r Rhyw HMPPS bod Maps for Change yn mynd i gael ei ddiweddarau a'i ail-lansio, gyda mwy o arweiniad ar bob ymarfer i staff ei ddilyn. Fodd bynnag, ni

fydd hyn yn cynnwys unrhyw hyfforddiant i staff, ac yn ein barn ni, mae angen i'r fath ail-lansiad wneud mwy i hyfforddi a hysbysu staff am y pecyn a'r dystiolaeth danategol sy'n seiliedig ar gryfderau.

Lle roedd dynion yn gwadu eu trosedd, neu'n ei wadu'n rhannol (rhywbeth nad yw'n anghyffredin ymhlith troseddwr rhyw), nid oedd gan lawer o swyddogion cyfrifol hyder i weithio gyda nhw, ac yn aml roedden nhw'n gwneud dim.

Gwelwyd nifer o achosion gennym lle nad oedd staff wedi cadw cofnodion electronig yn ddigon da. Roedd cynnwys yn amrywio o ran ansawdd, hyd yn oed o fewn yr un cofnod achos. Roedd bron i un ymhob tri'n annigonol. Yn yr achosion hyn, roedd hi'n anodd dangos bod yma broses o wneud penderfyniadau cyfiawn. Dywedodd staff mai'r unig opsiwn oedd ganddynt yn aml oedd naill ai **"gwneud y gwaith neu ei gofnodi"**.

Mae'r berthynas rhwng y dynion a'r staff sy'n gweithio gyda nhw yn allweddol i wneud cynnydd trwy gydol eu dedfryd (Weaver, 2016). Yn y gymuned yn ogystal â'r ddalfa, roedd diffyg cysondeb y swyddogion cyfrifol a'r goruchwylwyr yn rhwystro'r gwaith o reoli achosion yn effeithiol. Canfuwyd rhai achosion gennym lle roedd gan y carcharorion hyd at bum swyddog cyfrifol tra'r oeddent yn y ddalfa yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd gan bron i chwarter yr achosion cymunedol a adolygwyd gennym dri neu fwy o swyddogion goruchwyllo o fewn cyfnod o 12 mis, ac mae hyn yn ormodol.

Yn debyg i'n canfyddiadau yn y ddalfa, canfuwyd tystiolaeth gennym o achosion yn cael eu 'pentyrru', ac mewn un ardal gwelsom arweiniad lleol ysgrifenedig yn cefnogi'r arfer hwn. Mae hyn yn digwydd pan fydd achosion yn y ddalfa tymor hwy gan SPO neu aelod arall o staff mewn enw'n unig ar nDelius ac yn cael eu neilltuo i swyddog cyfrifol 10 mis cyn y rhyddheir y carcharor. Pan neilltuir yr achosion hyn, mae'r swyddogion cyfrifol mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael ag achos newydd yn syth. Ar gyfer carcharorion tymor hwy, mae'n debygol y bydd hyn yn cymryd amser, lle dylai cynllunio ar gyfer rhyddhau gael blaenoriaeth. Tra mai cyfrifoldeb yr ardaloedd unigol yw rheoli eu llwyth gwaith fel y maent yn ei ystyried yn addas, nid yw'n dderbyniol o gwbl i droseddwr gael eu rheoli yn y modd hwn. Codwyd y mater hwn yn arolwg Prawf AEM o NPS Llundain yn 2017 (Prawf AEM, 2018a), ac eto mae'r arfer yn parhau mewn grym yn yr adran honno a rhai eraill.

Lle y rheolir achosion troseddu rhywiol o dan Lwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwr (OPD), mae clinigwyr yn cyflwyno datganiadau achos i swyddogion cyfrifol. Cyflwynir peth gwaith unigol ledled Lloegr a Chymru i droseddwr rhyw trwy dimau seicoleg fforensig. Canfuwyd gennym na wnaethpwyd defnydd digonol o'r llwybr gyda'r garfan hon o droseddwr, gyda llai na thraean o'r achosion a arolygwyd wedi'u sgrinio i weld a oeddent yn addas. Roedd llai fyth wedi'u hystyried yn addas ar gyfer y llwybr a saith yn unig oedd â datganiad achos a oedd yn hysbysu cyflwyno ymyriadau. Dywedodd staff llwybr OPD nad oedd rhai swyddogion sydd â chyfrifoldeb 'yn prynu i mewn' i'r llwybr, ac roedd hyn yn atal eu hachosion rhag cael mynediad i fanteision potensial y ddarpariaeth.

Roedd clinigwyr llwybr OPD ar gael i roi mwy o gefnogaeth generig i staff mewn rhai ardaloedd, ar gyfer achosion unigol (nid o angenrheidrwydd y rhai hynny oedd yn dangos nodweddion PD) yn ogystal ag anghenion cefnogi staff generig. Dyma enghraifft o le mae gwasanaethau eraill wedi llenwi'r bwch yn y gefnogaeth emosiynol a phroffesiynol sydd ar gael i staff.

Roedd gan bedwar achos ar ddeg yn ein sampl amodau trwydded i ymgymryd â phrawf polygraff. Roedd saith wedi'u cwblhau mewn da bryd. Cafodd un ei esgusodi ar sail salwch, cwblhaodd un yn annerbyniol o hwyr ac nid oedd pump wedi cael eu cyflawni.

Mae'r llwybr OPD yn ogystal â'r ddarpariaeth bolygraff yn adnoddau defnyddiol. Dylid gwneud mwy i hyrwyddo'u defnydd i swyddogion sydd â chyfrifoldeb yn gweithio gyda throseddwr rhyw, gan y byddai hyn yn y pen draw yn eu cefnogi wrth wneud eu gwaith.

Adolygiadau o waith a gyflwynwyd a chamau gorfodi

Mewn nifer o achosion, ni chwblhawyd adolygiad OASys priodol pan y dylid neu mewn ymateb i newid mewn amgylchiadau. Roedd rhai cynlluniau wedi'u 'tynnu trwyddo' o asesiadau blaenorol ar OASys yn hytrach na bod yn ddiweddariad ystyrllon o'r gwaith a wnaethpwyd.

Nid oedd cynlluniau rheoli risg yn cael eu diweddarau'n ddigon da, yn enwedig pan dderbyniwyd gwybodaeth newydd, gan gynnwys o asiantaethau eraill.

Dyweddodd swyddogion cyfrifol, yng nghyd-destun llwyth gwaith prysur ac un oedd yn gofyn llawer, fod adolygiadau'n cael eu blaenoriaethu llawer llai na gwaith arall. Roedd swyddogion yn aml yn sôn am reolwyr yn derbyn yn dawel na fyddai adolygiadau'n cael eu cwblhau.

Roedd y mwyafrif o achosion yn ein sampl heb ail-droseddu trwy gydol eu dedfryd, er bod naw wedi gwneud ac wedi eu dychwelyd i'r ddalfa. Dylai un achos fod wedi'i adalw'n gynt na'r hyn a ddigwyddodd. Roedd pymtheg achos wedi torri amodau trwydded, gyda 12 wedi torri gorchymyn cyfyngol fel SHPO.

Canfuwyd gennym, mewn 42 o achosion, fod angen gweithredu camau gorfodi am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys peidio â mynychu apwyntiadau, torri amodau trwydded neu drosedd ddilynol. Mewn bron i hanner yr achosion hynny, ni weithredwyd camau priodol, er enghraifft rhoi rhybudd, gan y swyddog cyfrifol.

Enghraifft o arfer gwael

Ni chyflwynwyd unrhyw waith i Sean i leihau'r risg y byddai'n aildroseddu. Mewn un sesiwn, roedd y swyddog cyfrifol wedi ceisio cyflwyno un o'r sesiynau Maps for Change, ond roedd Sean wedi dechrau bod yn heriol, ac felly roedd rhaid rhoi'r gorau i'r sesiwn ac ni ddychwelwyd ati eto. Cynhaliwyd apwyntiadau Sean yn aml yn y ganolfan adrodd neu roedd yn cael ei weld gan swyddog ar ddyletswydd. Nid oedd dilyniant cyson o apwyntiadau lle roedd yn cael ei weld gan ei swyddog cyfrifol ei hun.

Enghraifft o arfer da - Gogledd Cymru

Cafodd Arun ei ddedfrydu i'r carchar am ymosod yn rhywiol ar ferch o dan 16 oed pan oedd yn 20 oed. Mae ganddo hanes o iechyd meddwl gwael, defnyddio cyffuriau ac ymddygiad dros ben llestri. Pan gafodd ei ryddhau i safle cymeradwy, roedd pryderon ynghylch y ffaith ei fod yn agored i niwed ac yn peri risg i ddiodefwr potensial o bob oed, ac roedd hi'n her arwyddocaol i reoli'r pryderon hyn yn effeithiol.

Sicrhaodd ei swyddog cyfrifol gefnogaeth iechyd meddwl a gwasanaethau cyffuriau i Arun a chydweithiodd yn dda â'r gwasanaethau plant a'r heddlu i reoli'r risg a gyflwynwyd.

Er gwaethaf ymdrechion gorau'r swyddog cyfrifol, torrodd Arun delerau ei gofrestrriad troseddwr rhyw a chafodd ei adalw i'r carchar yn briodol.

4.2 Casgliadau a goblygiadau

Mae'r broses gyfredol o asesu troseddwy'r gan ddefnyddio nifer fawr o ddulliau yn drwsogl. Mae'n achosi dyblygu ac yn golygu bod asesiadau'n cael eu gwneud ar eu pennau eu hunain yn lle cael un asesiad hygyrch a chynhwysfawr.

Defnyddiodd swyddogion cyfrifol OASys a RM2000 yn dda yn y mwyafrif o achosion. Fodd bynnag, canfuwyd diffygion arwyddocaol yn y broses o gwblhau ARMS, yr asesiad arbenigol o droseddwr rhyw. Nid oedd manteision cwblhau'r asesiadau hyn wedi'u sylweddoli'n llawn a phrin yr ymgorfforwyd y rhai a wnaethpwyd i mewn i'r asesiad cyffredinol.

Nid oedd cynllunio'n aml yn ddigon manwl, wedi'i ganolbwyntio ar ymataliad neu'n eglur ynghylch y rolau a'r tasgau i'w gwneud gan ddynion a'r rhai hynny oedd yn gweithio gyda nhw.

Ni ddefnyddiwyd rhaglenni achrededig ar gyfer troseddwy'r rhyw yn y gymuned yn ddigon aml. Pan nad oedd troseddwy'r yn cymryd rhan yn y rhaglenni hyn, roedd gwaith unigol a gyflwynwyd yn anghyson ar ei orau ac nid yn bodoli ar ei waethaf. Mae staff yn defnyddio amrywiaeth o becynnau i gyflwyno gwaith unigol ac nid yw hyn o angenrheidrwydd yn cyd-fynd â'r dull sy'n seiliedig ar gryfderau.

Nid oedd adolygiadau ynghylch y gwaith a wnaethpwyd gyda throseddwy'r rhyw hefyd yn ddigonol, ac nid oeddent yn cael eu cynnal mewn nifer digonol o amgylchiadau. O ganlyniad, nid oedd datblygiadau arwyddocaol newydd megis cwrdd â phartner newydd bob amser yn cael eu cynnwys yn yr asesiad a'r cynllun dilynol.

5 Diogelu'r cyhoedd

Yn y bennod hon, rydym yn rhoi sylwadau ar lwyddiant y trefniadau MAPPA i gefnogi diogelwch y cyhoedd ar lefel strategol a lefel weithredol. Rydym hefyd yn cyflwyno ein canfyddiadau ynghylch y gwaith a gyflawnir gan yr NPS i ddiogelu dioddefwyr a phlant.

5.1 Yr hyn a ganfuwyd gennym

MAPPA

Er nad oedd hwn yn arolwg llawn o gyflwyniad y trefniadau MAPPA, mae pob RSO o dan adain MAPPA, o achos natur eu trosedd a'u cofrestrriad dilynol.

Roedd *Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003* yn darparu ar gyfer sefydlu MAPPA ym mhob un o'r ardaloedd cyfiawnder troseddol yn Lloegr a Chymru. Gofynnant fod yr asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a chyrff eraill sy'n delio â throseddwy'r yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i reoli'r troseddwy'r hyn.

Yr awdurdodau sydd yn gyfrifol am MAPPA yw'r heddlu, yr NPS a Gwasanaeth Carchardai EM. Dylai'r tri gwasanaeth weithio ar y cyd i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i reoli'r risgiau a achosir gan droseddwy'r rhyw, troseddwy'r treisgar a pheryglus eraill yn y gymuned, a sicrhau y diogelir y cyhoedd, gan gynnwys dioddefwyr a phlant cymaint ag sy'n bosibl.

Ceir tair lefel o reoli MAPPA, a'r egwyddor arweiniol yw y dylid rheoli achosion ar y lefel angenrheidiol i reoli'r risg. Y tair lefel yw:

- Lefel 1: rheolaeth asiantaeth arferol
- Lefel 2: rheolaeth aml-asiantaeth
- Lefel 3: uwch reolaeth aml-asiantaeth.

Er bod peth cydberthynas rhwng y lefel o risg a'r lefel o reolaeth MAPPA, nid ydynt yn gyfwerth o angenrheidrwydd. Mae'n bwysig na chyfunir lefelau risg â lefelau rheoli MAPPA. Ar gyfer y troseddwr hynny a reolir yn bennaf gan un asiant, gellir rheoli'r achos fel arfer yn effeithiol ar MAPPA Lefel 1.

MAPPA yn y ddalffa

Dylai Gwasanaeth Carchardai EM bob amser gyfrannu at gyfarfodydd Lefel 2 a 3 pan fo'r troseddwr yn dal yn y ddalffa. Roedd pryderon gennym ynghylch y ffordd y gweithredir MAPPA mewn achosion yn y ddalffa. Nid oedd gan bob achos a arolygwyd gennym asesiad OASys neu RM2000 diweddar, a oedd yn gwneud y broses o gyfiawnhau penderfyniadau ynghylch y lefel fwyaf addas ar gyfer rheoli MAPPA yn anodd. Roedd cyfathrebu rhwng y carchar a'r NPS i osod y lefel rheoli MAPPA cyn rhyddhau yn anghyson, ac mewn nifer o achosion nid oedd yn digwydd.

Dim ond wyth o'r 29 achos a arolygwyd yn y ddalffa oedd â thystiolaeth o'r swyddog cyfrifol yn cadarnhau'r lefel rheoli MAPPA cyn rhyddhau. Roedd rhai achosion wedi'u neilltuo i MAPPA Lefel 1 er, yn ein barn, dylent fod wedi cael eu rheoli ar Lefel 2 i sicrhau dull amlasiantaeth gweithredol. Nid oedd gan bob achos a reolwyd ar Lefel 1 gynllun rheoli risg diweddar ac ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd gennym fod adolygiadau Lefel 1 wedi'u cynnal.

Roedd hysbysiad o gyfarfodydd MAPPA cymunedol weithiau'n cyrraedd yn rhy hwyr i'r carchar baratoi adroddiad cynhwysfawr neu sicrhau y gallai rhywun fynychu. Roedd un achos i gael ei ryddhau dri mis ar ôl yr arolygiad hwn. Dim ond pan dderbyniwyd cais ganddynt am adroddiad y canfu'r carchar bod yr achos yn cael ei reoli ar Lefel 2 MAPPA, er bod rhai cyfarfodydd Lefel 2 wedi'u cynnal yn barod.

MAPPA yn y gymuned

Rheolwyd y mwyafrif o achosion cymunedol ar lefel MAPPA addas i gefnogi diogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, canfuwyd gennym y deallwyd ac y gweithredwyd y meini prawf ar gyfer pob lefel yn wahanol ledled yr ardaloedd a arolygwyd. Mewn un ardal, ceir polisi cyffredinol ynghylch goruchwyllo pob carcharor oes a'r rhai hynny a ddedfrydwyd i garchar ar gyfer achosion diogelu'r cyhoedd (IPP) ar MAPPA Lefel 2 am 12 mis ar ôl eu rhyddhau, heb ystyried yr angen am reoli a welir. Mewn ardaloedd eraill, canfuom fod staff yn amharod i gyfeirio unrhyw beth i MAPPA Lefel 2 oherwydd eu bod yn gwybod na fyddai'n cael ei dderbyn, beth bynnag fo'r materion a welwyd, oherwydd y 'bar uchel'.

Mewn un ardal, cynhaliwyd cyfarfodydd MAPPA Lefel 2 ynghylch achosion lle nad oedd unrhyw gyfiawnhad am hyn, naill ai mewn perthynas â rheolaeth amlasiantaeth weithredol neu reolaeth risg effeithiol. Roedd hi'n ymddangos bod swyddogion cyfrifol yn defnyddio cyfarfodydd MAPPA Lefel 2 fel rhwyd achub i reoli eu hachos. Roedd hyn wedi golygu llwyth achosion uchel o achosion MAPPA Lefel 2, ac oedi i gael trafod achosion mewn cyfarfodydd MAPPA. O ganlyniad, efallai bod achosion MAPPA Lefel 2 priodol wedi wynebu oedi wrth geisio cael mynediad i adnoddau.

Roedd proses adolygu MAPPA Lefel 1 yn anghyson. Dylai proses dda gynnwys adolygiad pob chwe mis, gan gynnwys ARMS ac OASys, sy'n cael ei ddogfennu wedi hynny ar nDelius neu ar brofforma.

Mewn rhai ardaloedd, adolygwyd achosion ar ddechrau dedfryd ac ni chawsant eu hadolygu ar ôl hyn. Roedd gan ardaloedd eraill broses MAPPA Lefel 1 fwy ffurfiol, er nad oedd y rhain yn aml yn cael eu cynnal mewn gwirionedd. Ni chwblhawyd adolygiad addas mewn dros 40% o achosion MAPPA Lefel 1 yn ein sampl. Pan gynhaliwyd adolygiadau MAPPA Lefel 1, roeddent bron bob amser yn ymarfer gan yr NPS yn unig. Nid oeddent yn ystyried gwybodaeth gan asiantaethau eraill, yn enwedig gan yr heddlu.

Cwrddom ag aelodau Bwrdd Rheoli Strategol (SMB) MAPPA ym mhob ardal a arolygwyd gennym. Roedd lletya troseddwy rhyw yn her allweddol ym mhob ardal, ac yn enghraifft lle dylai SMBs fod wedi cael mwy o effaith. Fodd bynnag, canfuwyd un ardal yn unig gennym lle defnyddiwyd uwch reolwyr tai gan yr SMB i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Mae heriau i awdurdodau lleol wrth flaenoriaethu troseddwy rhyw i gael llety o'r nifer cyfyngedig o dai. Fodd bynnag, mae angen deall hyn fel rhan o fodel rheoli risg ehangach, gyda SMBs yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau. Mewn un ardal, dywedodd cadeirydd SMB yr heddlu fod dangosyddion perfformiad MAPPA yn canolbwyntio ar bresenoldeb mewn cyfarfodydd yn hytrach na'u heffeithiolrwydd. Disgrifiodd yr SMB fel "**siop siarad**" gydag ychydig o ganlyniadau gwerth chweil. Yn gyffredinol, roedd angen i SMBs wneud mwy i ysgogi gwelliannau yn y broses o reoli troseddwy rhyw ar sail amlasiantaeth.

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd MAPPA gan weithwyr proffesiynol o bob asiantaeth yn dda'n gyffredinol, gyda'r asiantaethau cywir o gwmpas y bwrdd i drafod achosion unigol.

Enghraifft o arfer gwael

Cafodd Michael ei ddedfrydu i garchar am droseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant. Cafodd ei ryddhau i safle cymeradwy. Roedd mwy na phum swyddog cyfrifol wedi gweithio ar yr achos a chafodd y swyddog cyfredol ei neilltuo dair wythnos yn unig cyn i Michael gael ei ryddhau.

Roedd y swyddog yn gymharol ddibrofiad ac nid oedd wedi delio ag achosion tebyg yn y gorffennol. Nid oedd tystiolaeth o unrhyw esgeulustod gan dîm rheoli yn yr achos hwn, a reolwyd ar MAPPA Lefel 1.

Nid oedd unrhyw waith ymddygiad troseddol wedi'i gwblhau. Nid oedd y cynllun dedfryd a'r cynllun rheoli risg yn ystyried yn ddigonol yr angen i ddiogelu'r dioddefwr cyfredol ar ôl rhyddhau. Ni chafwyd unrhyw gyswllt â'r tîm arbenigol lleol camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac nid oedd y swyddog yn ymwybodol o'r pecyn adnoddau a gyhoeddwyd yn genedlaethol sy'n cynnwys arweiniad ynghylch gweithio gyda'r math hwn o droseddwr.

Symudodd Michael o'r safle cymeradwy, yn ôl i'w gartref teuluol, er ei fod yn peri risg potensial o niwed i blant. Cafodd ei adalw i'r carchar yn ddiweddarach.

Enghraifft o arfer da: Rochdale

Cafodd Darren ei ddedfrydu i garchar am dreisio plentyn pan oedd yn 17 oed. Mae ganddo hanes o droseddau treisgar eraill ac am beidio â chydymffurfio ag amodau trwydded. Pan gafodd ei ryddhau gyntaf, cafodd ei adalw ar ôl iddo fethu â mynd i gofrestru mewn safle cymeradwy fel y gorchymynnwyd iddo. Cyn iddo gael ei adalw, ceisiodd ladd ei hun.

Cyflawnwyd gwaith aruthrol gan y swyddog cyfrifol cyn yn ogystal ag ar ôl iddo gael ei ryddhau, i ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl. Ar ôl ei ryddhau, gwnaethpwyd gwaith cydgysylltiedig gyda staff y safleoedd cymeradwy, asiantaethau cyffuriau, yr heddlu a staff iechyd meddwl.

O ganlyniad, mae Darren wedi cymryd camau arwyddocaol i fynd i'r afael â'i iechyd meddwl, problemau cyffuriau a phersonol, y mae'r cyfan yn helpu i leihau ei risg o aildroseddu.

ViSOR

Fel yn y ddalffa, ni ddefnyddiwyd ViSOR i rannu gwybodaeth yn effeithiol yn y gymuned. Cawsom mai dim ond mewn un achos allan o ddeg y gwnaethpwyd hyn.

Nid oes gan y mwyafrif o staff fynediad rheolaidd i system ViSOR, ac mae'r broses o rannu gwybodaeth yn dibynnu ar staff yn e-bostio gwybodaeth at weinyddwyr ViSOR a/neu'n defnyddio nDelius i drosglwyddo gwybodaeth. Mae gan y ddau lwybr y potensial o beidio â chynnwys data neu beidio â chyfathrebu gwybodaeth allweddol.

Canfuom nifer o achosion yn ein sampl lle nad oedd y dangosydd ViSOR perthnasol ar nDelius wedi'i 'wirio'. Roedd rhai staff yn anymwybodol bod proses lle gallai gwybodaeth o nDelius gael ei rhannu'n hawdd yn electronig â gweinyddwr ViSOR, pan oedd y dangosyddion priodol mewn grym. Lle defnyddiwyd y system, nid oedd y cofnodion bob amser yn ddigon rheolaidd neu'n ddigon manwl.

Mae staff NPS ar hyn o bryd yn cynnal archwiliadau a hyfforddiant i'w galluogi i gael mynediad i'r system yn uniongyrchol, a cheir nifer o heriau technolegol y mae angen eu datrys o hyd.

Dywedodd rheolwyr bod y broses o archwilio staff i gael mynediad i ViSOR wedi bod yn her. Roedd rhai staff yn amharod i gwblhau'r broses hon. Roedd mynediad i hyfforddiant wedi bod yn broblem ac roedd cyfuniad o'r ddau ffactor wedi arwain at oedi. Nid oedd un ardal a arolygwyd wedi gweithredu mynediad 'darllen yn unig' ViSOR yn llawn i staff. Ni fydd hyn ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â'r materion ViSOR y mae angen mynd i'r afael â nhw o hyd, gan fod llawer yn ymwneud â sut mae'r NPS yn cyflwyno gwybodaeth i asiantaethau eraill sy'n defnyddio'r system, yn hytrach na'u mynediad eu hun i wybodaeth.

Roedd gweithredu technoleg Windows 10 ledled is-adrannau'r NPS wedi cyflwyno heriau wrth gael mynediad i ViSOR. Nid oedd nifer o staff a rheolwyr yn ymwybodol sut y gellid gwneud hyn.

Cafodd arolygwyr fynediad i ViSOR trwy ddull arall, er enghraifft mewn gorsaf heddlu, ac roeddent yn gallu adolygu cofnodion ar bob achos yn y gymuned heblaw am 5. Canfuom ddiffyg gwybodaeth gan yr NPS ynghylch y mwyafrif o achosion. Lle roedd wedi'i gynnwys, roedd wedi'i ychwanegu'n bennaf trwy ohebiaeth e-bost. Nid oedd nifer o gynlluniau rheoli risg yr NPS wedi'u cynnwys ar ViSOR, ac nid oedd asesiadau ARMS bob amser ar gael hyd yn oed os oeddent wedi'u cwblhau.

Gweithio ar y cyd ehangach

Canfuom fod perthynas strategol ar draws asiantaethau'n gadarnhaol. Cawsom adborth da gan bartneriaid, gan gynnwys yr heddlu a gwasanaethau plant, a daethom o hyd i enghreifftiau da o gydweithio i fynd i'r afael â materion fel camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae'r perthnasau hyn yn allweddol wrth gyflwyno gwaith gyda throreddwyr rhyw, ac mae trefniadau gweithio'n agos yn bwysig. Yr hyn sydd hefyd yn bwysig yw sut mae'r perthnasau strategol hyn yn treiddio i gamau gweithredu, ac yn y maes hwn gwelsom ddarlun llai cadarnhaol.

Yn ein harolwg cenedlaethol, dywedodd dros dri chwarter o swyddogion eu bod naill ai'n eithaf bodlon neu'n fodlon iawn gyda dull amlasiantaeth eu hardal leol ar gyfer gweithio gyda throreddwyr rhyw. Cefnogwyd y farn hon gan ganran debyg o swyddogion sydd â chyfrifoldeb, pan gawsant eu cyfweld gennym ynghylch eu hachosion. Fodd bynnag, roedd hyn i'r gwrthwyneb gyda'n canfyddiadau yn yr achosion eu hunain. Mewn gormod o achosion, nid oedd swyddogion cyfrifol wedi gweithio'n effeithiol gyda'r heddlu a gwasanaethau plant.

Roedd y trothwyau ar gyfer cael mynediad i wasanaethau'n uchel mewn nifer o asiantaethau partner, yn enwedig gofal cymdeithasol. Dywedodd nifer o swyddogion bod rhaid iddynt gysylltu â'r partneriaid sawl gwaith i gael mynediad i wasanaethau ar gyfer eu hachosion. Mewn un ardal, ni neilltuwyd yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol sy'n diogelu'r cyhoedd i ddynion cyn eu rhyddhau. Roedd gan hyn y potensial o effeithio ar waith amlasiantaeth ac ar y gallu i ddangos yn glir i ddynion yng nghamau cynnar eu cyfnod goruchwyllo bod asiantaethau'n cydweithio i reoli eu risg.

Canfuom mai defnydd cyfyngedig a wnaethpwyd o sefydliadau arbenigol y trydydd sector i gefnogi gweithwyr yn ogystal â throseddwr rhyw. Gellid gwneud mwy i drafod cyfleoedd gyda'r grwpiau hyn i wella'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael.

Enghraifft o arfer da – Bedford

Comisiynwyd cynllun blaendal rhent ar y cyd gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, NPS a CRC. Roedd yn rhoi blaendal rhent i droseddwr gael mynediad i dai a rentir yn breifat. Tra nad oedd y prosiect ar gyfer troseddwr rhyw'n unig, roedd yn dangos sut y gallai asiantaethau gydweithio i ddarparu ar gyfer y rhai hynny a oedd yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i dai oherwydd natur eu troseddu.

Enghraifft o arfer da – Rochdale

Roedd llawer o waith wedi'i gyflawni ar lefel strategol gydag achosion camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac ar ymateb partneriaeth MAPPa i'r gwaith uchel ei broffil hwn. Nododd rheolwyr strategol o'r gwasanaethau plant fod yr NPS wedi bod yn rhan allweddol o asesiad a wnaed o effaith drama deledu a oedd yn canolbwyntio ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn yr ardal. Roedd uwch reolwr yr NPS wedi galw a chynnal cyfarfodydd gydag uwch arweinwyr o 15 o sefydliadau lleol i sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi mewn grym i ddiogelu'r dioddefwyr, defnyddwyr gwasanaeth NPS a theuluoedd cysylltiedig. Cyfrannodd hyn yn arwyddocaol at sicrhau cydlynid cymunedol.

Diogelu dioddefwyr a phlant

Yn gyffredinol, roedd asesiadau a chynlluniau'n fwy tebygol o roi ystyriaeth ddyledus i'r risg botensial o niwed i oedolion hysbys a'r cyhoedd na phlant.

Mewn dros draean o achosion, methodd swyddogion cyfrifol ystyried gwybodaeth gan asiantaethau eraill, gan gynnwys gofal cymdeithasol plant. Pe byddent wedi gwneud hynny, byddent mae'n debyg wedi gallu cwblhau asesiad a chynllun dilynol mwy cyfannol a chynhwysfawr, gan fynd i'r afael â ffactorau diogelu'n briodol.

Roedd hi'n bryder i ni ganfod nad oedd traean o'r asesiadau yn dadansoddi pryderon a risgiau penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr adnabyddadwy neu botensial yn ddigonol. Derbyniwyd adroddiadau troseddwr unigol mewn gormod o achosion.

Enghraifft o arfer gwael:

Rhoddwyd dedfryd ohiriedig i James am droseddau o drais, ymosod rhywiol, a meddu ar gyffuriau gyda'r bwriad o gyflenwi.

Roedd yr asesiad cychwynnol yn ogystal â'r cynllun yn wael. Ni chydabuwyd y risg potensial i bartneriaid, plant a staff yn y dyfodol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, ni chynhaliwyd unrhyw waith a oedd yn gysylltiedig â throedd. Nid oedd unrhyw fesurau diogelu mewn grym ar gyfer dioddefwyr blaenorol neu ddiodefwyr newydd potensial. Pan ddechreuodd James berthynas newydd, nid oedd hyn wedi sbarduno adolygiad, cyfathrebu ag asiantaethau eraill neu ymweliad â'r cartref. Ar ben hynny, nid oedd mesurau diogelu ar waith ar gyfer plentyn James ei hun, yr oedd mewn cyswllt rheolaidd ag ef.

Nid oedd un ymhob tri cynllun ymyriad yn rhoi sylw digonol i gadw plant yn ddiogel. Ar ben hynny, roedd un ymhob pump o gynlluniau'n methu mynd i'r afael yn ddigonol â'r anghenion i gadw'r cyhoedd, oedolion hysbys a staff yn ddiogel. Mewn traean o achosion, roedd cynlluniau yn ogystal ag asesiadau'n methu ymgysylltu dynion yn y broses yn ddigonol, ac roedd nifer heb ystyried gorchmynion cyfyngol ac amodau trwydded. Roedd adolygiadau o'r risg o niwed yn ddigon da mewn llai na hanner y sampl.

Yn gyffredinol, roedd gan dri chwarter o achosion gyswllt digonol â'u swyddogion cyfrifol. Fodd bynnag, lleihawyd lefelau cyswllt rhai achosion yn rhy fuan gyda naill ai dim cyfiawnhad neu gyfiawnhad cyfyngedig am hyn. Yn yr un modd, gwelsom enghreifftiau o achosion yn cael eu gweld yn rheolaidd gan swyddog ar ddyletswydd am ddim mwy na 'chofnodi'. Nid oedd ymweliadau â'r cartref wedi'u cwblhau mewn dros draean o'r achosion a archwiliwyd, ac roedd yn gyfle a gollwyd gan yr NPS i gasglu gwybodaeth hanfodol i hysbysu asesiad risg a rheolaeth y dynion hyn.

Roedd rhaglenni a etifeddwyd yn canolbwyntio ar helpu troseddwyd rhyw i ddangos empathi tuag at ddiodefwyr eu trosedd. Mae'r model seiliedig ar gryfderau wedi symud yr agwedd hon i ffwrdd o ddull sy'n codi cywilydd (Tangney a Dearing, 2003). Awgrymir hyn yn ei awgrym am gyflwyno gwaith ar empathi diodefwyr i droseddwyd rhyw. Yn lle canolbwyntio ar ddiodefwyr penodol y trosedd, mae Horizon a dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau'n edrych ar 'elfennau cyffredinol sy'n rhwystro empathi'. Mae'n cymryd bod gan bobl empathi ac yn gallu ei ddefnyddio, ac yn archwilio yr hyn a allai eu hatal rhag bod ag empathi gyda phobl yn y dyfodol. Er hyn, daethom o hyd i ymarferwyr oedd yn parhau i gyflwyno'r hen ddull o waith empathi diodefwyr. Mewn rhai carchardai, roedd llyfrynnau ymwybyddiaeth diodefwyr yn parhau i gael eu defnyddio gyda'r rhai hynny a ddyfarnwyd yn euog o droseddau rhyw, er yn genedlaethol cafwyd pellhau oddi wrth gynnwys ymwybyddiaeth o ddiodefwyr fel targed triniaeth.

Swyddogion cyswllt â diodefwyr

Canfuwyd gennym fod VLOs ar y cyfan yn mynd y tu hwnt i ofynion ac arweiniad y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr (Probation Circular 11/2008) ac yn rhoi cefnogaeth dda i ddiodefwyr troseddau rhywiol. Roedd hyn yn digwydd er bod llwythi gwaith mawr a swyddi gwag ganddynt mewn rhai ardaloedd. Roedd nifer yn siarad am effaith yr ymarfer dod o hyd i ffeithiau yn achos John Worboys (Arolygiaeth Prawf EM 2018b) ac yn dweud bod hyn wedi gwneud i bobl ganolbwyntio ar yr hyn yr oedd angen ei wneud.

Dyweddod VLOs bod eu perthynas â'r swyddog cyfrifol mewn achosion o'r pwysigrwydd mwyaf, ac roedd ansawdd y berthynas hon yn dibynnu ar swyddogion unigol a pha gam roedd yr achos wedi'i gyrraedd.

Cawsom fynediad i'r System Rheoli Cyswllt â Dioddefwyr (VCMS) ar gyfer pob un o'n sampl cymunedol a chanfuom ei bod yn cael ei defnyddio'n effeithiol yn bennaf i gefnogi a diogelu dioddefwyr. Roedd gan VLOs ran rheolaidd ac addas ym mhroses MAPPA.

Roedd VLOs hyd yn oed yn llai tebygol na swyddogion cyfrifol o fod yn ymwybodol o ymyriadau troseddu rhywiol, ac yn anymwybodol ar y cyfan o'r newid yn y dull sy'n seiliedig ar gryfderau.

5.2 Casgliadau a goblygiadau

Yn gyffredinol, neilltuwyd troseddwy rhyw i'r lefel MAPPA cywir. Fodd bynnag, nid oedd y system yn gweithio'n dda yn y ddalfa, lle canfuom oedi wrth neilltuo lefel MAPPA i garcharorion ar fin eu rhyddhau. Roedd proses adolygu MAPPA Lefel 1 yn anghyson, ac roedd hyn yn golygu na nodwyd newidiadau mewn amgylchiadau bob amser. Ni ddefnyddiwyd ViSOR fel a fwriadwyd i gyfnwid gwybodaeth â phartneriaid a diogelu'r cyhoedd yn well.

Nid oedd ymweliadau â'r cartref yn cael eu cwblhau'n ddigon aml, ac mae hyn yn gyfle wedi'i golli i gasglu gwybodaeth hanfodol i hysbysu asesiadrsg.

Roedd gan asiantaethau partner barch tuag at yr NPS, a chanfuom waith da ar lefel strategol. Fodd bynnag, nid oedd y perthnasau hyn bob amser yn golygu bod arfer effeithiol yn cael ei weithredu.

Mae'r NPS yn defnyddio nifer o asesiadau troseddu rhywiol, ac nid yw'r rhain bob amser wedi'u hintegreiddio'n addas, yn enwedig ARMS. Canfuwyd achosion gennym ym mhob pump maes a arolygwyd lle roedd rhai pryderon diogelu, yn fwyaf aml mewn perthynas â phlant. O ystyried bod yr NPS yn gyfrifol am reoli achosion risg uchaf yn y gymuned, mae angen i'r gwasanaeth wneud mwy i sicrhau y rheolir y risg hon yn briodol.

Cyfeiriadau a darllen pellach

Craissati, J.(2015). 'Should we worry about sex offenders who deny their offences?' *Probation Journal*, cyfrol 62, cyhoeddiad 4, tudalennau 395–405.

Craissati, J.(2017). *Understanding the training and support needs of Probation staff working with sexual offenders*. Psychological approaches CIC (Heb ei gyhoeddi).

Gannon, T.(2012). *The evaluation of the mandatory polygraph pilot, Research Study 14/12*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Grove, W.M., Zald, D.H., Lebow, B.S., Snitz, B.E., Nelson, C. (2000). 'Clinical versus mechanical prediction: A meta-analysis'. *Psychological Assessment*, 12:19–31.

Hanson, R.K., Morton-Bourgon, K.E.(2005). *The characteristics of persistent sexual offenders: A meta-analysis of recidivism studies*. Ottawa, ON: Public Safety Canada.

Harkins, L., Beech, A.R. a Goodwill, A.M. (2010). 'Examining the influence of denial, motivation and risk on sexual recidivism', *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 22(1), 78–94.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (2017a). *HM Prison and Probation Service Business Plan – Models of Delivery 2017/2018*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (2017b). *NPS Operating Model 2017*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (2014). *Crime-recording: making the victim count. The final report of an inspection of crime data integrity in police forces in England and Wales*. Llundain.

- Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2010). *Thematic Inspection: Restriction and Rehabilitation: Getting the Right Mix – An inspection of the management of sexual offenders in the community, A Joint Inspection by HMI Probation and HMI Constabulary*. Llundain.
- Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2017). *Thematic Inspection: Probation Hostels' (Approved Premises) Contribution to Public Protection, Rehabilitation and Resettlement*. Manceinion.
- Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2018a). *Quality & Impact inspection: The effectiveness of probation work by the National Probation Service in London*. Manceinion.
- Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2018b). *Investigation into the policy and process followed by the Victim Contact Scheme in the case of John Worboys*. Manceinion.
- McNeill, F. (2009). *Towards Effective Practice in Offender Supervision*. The Scottish Centre for Crime and Justice Research Report 1/09. Glasgow.
- Martins, R.K. a McNeil, D.W. (2009). *Review of Motivational Interviewing in Promoting Health Behaviors*. Clinical Psychology Review, cyfrol. 29, rhif. 4.
- Maruna, S. a LeBel, T.P. (2010). 'The desistance paradigm in correctional practice: from programmes to lives', in McNeill, F., Raynor, P., Trotter, C. (golygyddion) (2010). *Offender Supervision: New directions in theory, research and practice*. Milton: Willan Publishing.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2000). *Probation Circular 108/2000: Criminal Justice and Court Services Act 2000: Implementation of the New Statutory Duty on Probation Services in Respect of Victims of Serious Sexual or Violent Crimes*. Llundain.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012). *Multi Agency Public Protection Arrangements*. Llundain.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013). *Transforming Rehabilitation: A Strategy for Reform*. Llundain.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017). *Impact evaluation of the prison-based Core Sex Offender Treatment Programme*. Llundain.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018). *Offender management statistics quarterly*. Llundain.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018). *Crime in England and Wales: year ending March 2018*. Casnewydd.
- Y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyd Cenedlaethol (2015). *Implementation of the Active Risk Management System (ARMS)*. Llundain.
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (2013). *Probation Instruction 11/2013 Victim Contact Scheme Manual: cyhoeddwyd 31 Hydref 2013*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (2018). *NPS: Current and planned work for people with convicted of sexual offences*. Effective practice division (Drafft heb ei gyhoeddi). Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Sanders T. (Golygydd) (2017). *The Oxford Handbook of Sex Offences and Sex Offenders*. Oxford: Oxford University Press.
- Schmucker, M. a Lösel, F. (2017). *Sexual offender treatment for reducing recidivism among convicted sex offenders: A systematic review and meta-analysis*. Oslo: Campbell Collaboration.
- Tangney, J. a Dearing, R. (2003). *Shame and Guilt*. Efrog Newydd: Guildford Press.
- Wakeling, H. a Saloo, F. (2018). *HMPPS Analytical Summary: An exploratory study of the experiences of a small sample of men convicted of sexual offences who have reoffended after participating in prison-based treatment*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Weaver, B. (2016). *Offending and Desistance: The importance of social relations*.

Llundain: Routledge.

Atodiad 1: Geirfa

Rhaglen achrededig	Rhaglen o waith a gyflwynir i droseddwy'r mewn grwpiau neu'n unigol trwy ofyniad mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu'n rhan o ddedfryd yn y carchar neu'n amod mewn trwydded carchar. Mae rhaglenni achrededig yn cael eu hachredu gan y Panel Achrededig Gwasanaethau Cywirol am eu bod effeithiol am leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu
ARMS	Mae System Rheoli Risg Gweithredol (ARMS) yn darparu fframwaith ar gyfer gweithio gyda throseddwy'r rhyw gwryw sy'n ddarostyngedig i oruchwyliaeth statudol. Mae'n helpu i asesu risg ddynamig a ffactorau amddiffynnol (gweler Probation Instruction PI 15/2015)
BLB	Better Lives Booster. Rhan o'r gyfres sydd ar fin diflannu o raglenni triniaeth troseddwy'r rhyw. Cwblheir hon ar ôl rhaglen graidd neu estynedig fel rhaglen i atal atgwymp. Mae'n seiliedig ar y Good Lives Model
Diogelu/amddiffyn plant	Gwaith i sicrhau fod pob cam gweithredu rhesymol wedi'i gyflawni i gadw'r risg y gallai plentyn gael ei niweidio i'r lefel isaf bosibl
Goruchwyliaeth glinigol	Mae ymarferwyr yn trafod eu harferion gyda goruchwylwyr medrus. Y pwrpas yw sicrhau arfer myfyriol, gwell arfer a diogelu lles yr ymarferwr
SOTP Craidd	Rhaglen Trin Troseddwy'r Rhyw Craidd. Rhan o'r gyfres flaenorol o raglenni triniaeth i droseddwy'r rhyw ar gyfer dynion sy'n sgorio'n ganolig neu'n uchel ar RM2000, ac sydd â sgorau perthnasol ar y TNA er mwyn cymryd rhan
CSE	Camfanteisio'n rhywiol ar blant. Math o gam-drin plant yn rhywiol lle camfanteisir ar blant gan droseddwy'r ar gyfer pwrpasau rhyw, e.e. masnachu, puteindra
E3	Mae E3 yn sefyll am "Effeithioldeb, Effeithiolrwydd, a Rhagoriaeth". Dyma oedd model gweithredu'r NPS a grëwyd yn dilyn y rhaglen <i>Trawsnewid Adsefydlu</i> ym mis Mehefin 2014.
EQuiP	Excellence and Quality in Process: adnodd cenedlaethol seiliedig ar y we gan yr NPS sy'n darparu gwybodaeth gyson am y prosesau i'w dilyn ymhob agwedd o waith yr NPS. Tanategir y broses fapio gan fesurau sicrhau ansawdd
Horizon	Rhaglen o waith grŵp sydd wedi'i hachredu'n genedlaethol a luniwyd ar gyfer troseddwy'r rhyw gwryw sy'n peri risg canolig
Delweddau anweddus	Delweddau o blant a ystyrir yn anghyfreithlon fel y'u diffinnir gan Adran 1 y <i>Ddeddf Diogelu Plant 1978</i> ac Adran 160 y <i>Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988</i>
I-Horizon	Rhaglen Trin Troseddwy'r Rhyw ar y Rhyngryd: ar gyfer y rhai hynny a ddyfarnwyd yn euog o droseddau a gyflawnwyd

	ar y rhyngryd. Mae'n dueddol o gynnwys troseddwy'r sy'n dangos ymddygiad gwyrthroedig lefel isel.
MOSOVO	Rheoli Troseddwy'r Rhyw a Throseddwy'r Treisgar. Tîm o fewn gwasanaeth yr heddlu sy'n rheoli troseddwy'r rhyw cofrestredig yn y gymuned. A elwid yn flaenorol yn SADO a PPU
Troseddau di-gyswllt	Ymddygiad rhywiol anghyfreithlon nad yw'n cynnwys cyswllt corfforol â'r dioddefwr. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, dinoethi anwedus, meddu ar neu gynhyrchu pornograffi anghyfreithlon, ac awgrymiadau anwedus nas dymunwyd gan unigolyn neu drwy gyfrwng arall
OASys	System Asesu Troseddwy'r: a ddefnyddir ar hyn o bryd yn Lloegr a Chymru gan CRCs a'r NPS i fesur risgiau ac anghenion troseddwy'r dan oruchwyliaeth
OMiC	Rheoli Troseddwy'r yn y Ddalfa: bydd y model yn gweld y cyfrifoldeb am reoli troseddwy'r NPS yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa yn newid o swyddogion cyfrifol cymunedol i Wasanaeth Prawf Cenedlaethol a thimau carchardai sector gyhoeddus newydd yn cydweithio o fewn sefydliadau
<i>ORA 2014</i>	<i>Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 2014</i> : daeth i rym ym mis Chwefror 2015, ac mae'n berthnasol i droseddau a gyflawnwyd ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, y <i>Deddf Adsefydlu Troseddwy'r (ORA) 2014</i> yw'r Ddeddf Seneddol sy'n gysylltiedig â'r <i>rhaglen</i> Trawsnewid Adsefydlu
PD ac OPD	Anhwylder Personoliaeth a Llwybr Anhwylder Personoliaeth: mae anhwylder personoliaeth yn gyfuniad o feddyliau, teimladau ac ymddygiad sy'n barhaus, yn dreiddiol ac yn achosi problemau. Mae swm y nodweddion anhwylderau cyfunol yn croesi'r trothwy ar gyfer diagnosis. Mae'r PDP yn bartneriaeth ar y cyd â HMPPS/NHS. Mae seicolegwyr arbenigol yn helpu swyddogion cyfrifol i ddatblygu datganiadau ar gyfer gweithio gydag unigolion sydd â nodweddion cysylltiedig â'u hymddygiad troseddol
Polygraff	Prawf gan ddefnyddio peiriant ac ymarferwr arbenigol, a gynlluniwyd i gofnodi newidiadau mewn ffisioleg. Fe'i defnyddir i nodi ymatebion anonest i gwestiynau ynghylch cadw at amodau trwydded
PPU	Uned Diogelu'r Cyhoedd: yr enw blaenorol am dîm MOSOVO ond fe'i defnyddir o hyd yn eang, yn enwedig wrth gyfeirio at swyddog yr heddlu o'r uned honno fel bod yn swyddog PPU

Adroddiad cyn-dedfrydu	Mae'n cyfeirio at unrhyw adroddiad a baratoir ar gyfer llys, p'un ai wedi'i gyflwyno ar lafar neu mewn fformat ysgrifenedig
PO	Swyddog prawf: dyma'r term ar gyfer swyddog sydd â chyfrifoldeb sydd wedi cwblhau cymhwyster proffesiynol addysg uwch. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio gan ddibynnu ar ba bryd y dilynwyd yr hyfforddiant. Maent yn rheoli achosion mwy cymhleth
PSO	Swyddog gwasanaethau prawf: dyma'r term ar gyfer swyddog sydd â chyfrifoldeb a gafodd ei recriwtio'n wreiddiol heb gymhwyster proffesiynol. Mae gofyn i PSO sydd newydd ei benodi gwblhau hyfforddiant a benderfynir yn genedlaethol o fewn 12 mis o gychwyn y swydd. Gallent reoli pob achos heblaw am yr achosion mwyaf cymhleth, gan ddibynnu ar eu lefel o hyfforddiant a phrofiad. Mae rhai PSOs yn gweithio yn y llys, lle mae eu dyletswyddau'n cynnwys ysgrifennu adroddiadau cyn-dedfrydu
PQiP	Cymhwyster Proffesiynol mewn Prawf
Swyddog cyfrifol	Y term a ddefnyddir ar gyfer y swyddog sydd â'r prif gyfrifoldeb am reoli achos
RSO	Troseddwr rhyw cofrestredig: troseddwr y mae gofyn iddo arwyddo'r Gofrestr Troseddwyr Rhyw yn unol â <i>Deddf Troseddau Rhyw 2003</i>
SFO	Trosedd ddifrifol bellach: Trosedd dreisgar neu rywiol ddifrifol a gyflawnwyd gan unigolyn sy'n ddarostyngedig i oruchwyliaeth prawf. Yn y fath amgylchiadau, adolygir y ffordd y rheolir yr achos
SHPO	Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol: gorchymyn llys yn gwahardd ymddygiad gan unigolyn a ystyrir yn rhywun sy'n peri risg o niwed rhywiol
SOR	Cofrestr Troseddwyr Rhyw: cofrestr a fonitir gan yr heddlu ar gyfer goruchwyllo unigolion a gafodd eu dyfarnu'n euog o droseddau rhyw o fewn y gymuned
TNA	Dadansoddiad anghenion triniaeth: dyma asesiad o ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddau rhyw sydd wedi'u grwpio i mewn i bedwar maes. Fe'i defnyddir i hysbysu llwybr triniaeth
<i>Trawsnewid Adsefydlu</i>	Rhaglen gan y llywodraeth ynglŷn â'r ffordd y rheolir troseddwyr yn Lloegr a Chymru o fis Mehefin 2014
Rheolwr triniaeth	Ymarferwr a hyfforddwyd yn arbennig sy'n goruchwyllo'r broses o gyflwyno rhaglenni triniaeth troseddu rhywiol. Mae hyn yn cynnwys trefnu rhestrau aros, monitro triniaeth hwyluswyr a sicrhau cyfanrwydd y rhaglen
Anghenion triniaeth	Y meysydd hynny a nodwyd yn flaenorol fel rhai sy'n gysylltiedig â throsedd rhyw unigolyn ac a fyddai'n manteisio ar newid er mwyn lleihau troseddu rhyw ymhellach

Atodiad 2: Methodoleg

Cyn gwaith maes

1. Adolygiad o waith ymchwil i asesiad ac ymyriadau troseddu rhywiol
2. Coladiad o ddata troseddu rhyw ac ymyriadau HMPPS, MoJ, Gwasanaeth Carchardai EM a NPS
3. Trafodaethau cyd-destun gyda rheolwyr MoJ a HMPPS
4. Adolygiad o arolygon ac archwiliadau blaenorol sy'n gysylltiedig â throseddu rhyw
5. Arolygiad peilot o waith cymunedol yn Sheffield (mis Mehefin 2018) i brofi ein methodoleg a dulliau arolygu
6. Cynhaliwyd arolygiad peilot o waith yn y ddalfa i brofi ein methodoleg a'n dulliau gan CEM Moorland, hefyd ym mis Mehefin 2018.

Gwaith maes yr arolwg: cymuned (Arolygiaeth Prawf EM)

Roedd gwaith maes yr arolwg yn cynnwys ymweliadau â phum ardal mewn pum is-adran wahanol o'r NPS rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2018. Roedd yr ardaloedd a ddewiswyd yn cynnwys cymysgedd o ardaloedd dinesig, trefol, gwledig ac arfordirol.

Yr Uned Gyflawni Leol (LDU)	Is-adran yr NPS
LDU Bury, Rochdale ac Oldham	Gogledd-orllewin Lloegr
LDU Swydd Bedford	De a De-ddwyrain Lloegr
LDU Hammersmith, Fulham, Kensington a Chelsea a San Steffan	Llundain
LDU Gogledd o'r Tyne	Gogledd-ddwyrain Lloegr
LDU Gogledd Cymru	Cymru

Roedd y gwaith maes yn cynnwys:

1. Asesu 120 o achosion. Mewn 104 o'r rhain, cyfwelwyd y swyddog cyfrifol gennym ac mewn 13 cyfwelwyd rheolwr gennym oherwydd bod y swyddog cyfrifol yn absennol. Aseswyd achosion gennym a oruchwyliwyd gan 113 o swyddogion gwahanol. Gwelwyd cyfanswm o 94 o wahanol swyddogion cyfrifol. Cynhaliwyd saith o'n cyfweiliadau yn y Gymraeg.
2. Ym mhob ardal a ymwelwyd gennym, cawsom gyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda'r canlynol
 - Penaethiaid LDU
 - Uwch swyddogion prawf
 - Swyddogion prawf, gan gynnwys y rhai hynny nad oedd ganddynt achosion o fewn y grŵp sampl
 - Timoedd cyflwyno rhaglenni achrededig a rheolwyr triniaeth
 - Swyddogion a rheolwyr cyswllt â dioddefwyr
 - Cydgysylltwyr MAPPA, ac aelodau o SMB MAPPA

- Staff OPD
- Cydweithwyr diogelu'r cyhoedd yr heddlu sy'n gweithio gyda throseddwyr rhyw
- Gweinyddwyr ViSOR sy'n gweithio i'r NPS yn ogystal â'r heddlu
- Cyfweiliadau ad hoc gyda phartneriaid, darparwyr a gweinyddwyr

3 Aethom ati i gynnal yr arsylwadau dilynol o arferion:

- Dau gyfarfod MAPPA
- Sesiynau a recordiwyd o Horizon ar y safleoedd lle roedd ar gael (tri)

Siaradom ag aelodau'r Bwrdd Rheoli Troseddwyr Rhyw, a chynhaliom gyfweiliadau gyda staff HMPPS, NPS a Charchardai EM yn y tимоedd canlynol:

- Tîm Ymyriadau HMPPS
- Tîm Ymyriadau Dwysedd Uchel HMPPS
- Gwasanaethau Ymyriadau HMPPS
- Tîm Diogelu'r Cyhoedd a Phartneriaeth HMPPS
- Tîm MAPPA Cenedlaethol
- Tîm Polisi Troseddwyr Rhyw HMPPS
- Tîm Mewnwelediad Troseddwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Tîm Rheoli Gwybodaeth am Berfformiad HMPPS
- Is-adran Arferion Prawf Effeithiol yr NPS
- Grŵp Arferion Gweithredol, Cydraddoldebau ac Ymyriadau Gwasanaeth Carchardai EM
- Gwasanaethau Seicoleg HMPPS

Ymunodd arolygydd â ni o Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi am ddiwrnod ymhob un o'r pum wythnos o arolwg y gwaith maes cymunedol. Aethent i gyfweiliadau gyda chydweithwyr yr heddlu a staff strategol a gweithredol eraill MAPPA i gefnogi ein gwaith.

Proffil achos yr arolwg: NPS

Archwiliwyd 120 o achosion gennym o droseddwyr a oedd wedi'u dedfrydu i orchymyn cymunedol neu ddedfryd ohiriedig neu a oedd ar drwydded o ddedfryd yn y ddalfa am drosedd rywiol. O'r achosion a aseswyd gennym:

- Roedd y mwyafrif yn wyn (88%) ac yn heterorywiol (76%)
- Roedd ychydig dros hanner o'r sampl yn achosion goruchwylio/trwydded cyn rhyddhau; roedd y gweddill yn ddedfrydau cymunedol
- Roedd 40 o'r achosion yn droseddau di-gyswllt megis meddu ar ddelweddau anweddu a'u rhoi ar led, a llygadu a dinoethi
- Roedd nifer arwyddocaol o'r dioddefwyr yn yr achosion a welsom yn ferched (89) a nifer tebyg (83 o achosion) yn blant
- Roedd y mwyafrif o achosion wedi'u dedfrydu o dan y *Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr* (67%)
- 42 o achosion lle roedd rhaglen achrededig yn ofyniad amod trwydded neu orchymyn
- 26 o achosion lle nodwyd Horizon fel y rhaglen achrededig
- roedd gan 14 o achosion trwydded amod trwydded polygraft

- Rheolwyd y mwyafrif o achosion ar MAPPA Lefel 1 (94 o achosion)
- Roedd mwy na chwarter yr achosion wedi preswyllo mewn safleoedd cymeradwy ar ddechrau eu gorchymyn neu drwydded gyda sawl un arall wedi gwneud hynny ar adegau eraill yn ystod eu dedfryd.

Methodoleg a gwaith maes yn y ddalfa (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi)

Canolbwyntiodd yr arolwg ar garcharorion mewn carchardai i oedolion gwrywaidd a oedd yn y carchar am drosedd rhyw ac a oedd i gael eu rhyddhau o fewn y tri mis ar ôl dyddiadau ein gwaith maes.

Roedd agwedd y ddalfa'n canolbwyntio ar ansawdd y broses o baratoi ar gyfer rhyddhau, yn enwedig ansawdd y gwaith o gynllunio sut i reoli risgiau ar ôl rhyddhau.

Mae'r dystiolaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn deillio o ffynonellau amrywiol:

- cyfarfodydd gyda staff yr HMPPS i archwilio cynlluniau strategol, cynnydd a wnaethpwyd a'r camau nesaf i reoli troseddwy'r rhyw sydd wedi'u dyfarnu'n euog
- gwaith maes mewn pum sefydliad, gan gynnwys adolygiad o ffeiliau achos carcharorion a ddyfarnwyd yn euog o droseddau rhyw, yn ogystal â chyfweliadau gyda charcharorion a ddyfarnwyd yn euog o droseddau rhyw a swyddogion cyfrifol.

Mae gwybodaeth o bob ffynhonnell wedi'i thriongli i ffurfio sail ar gyfer y dyfarniadau a wnaethpwyd yn yr adroddiad hwn

Gwaith maes

Darparodd y pum carchar i oedolion gwrywaidd a arolygwyd gymysgedd o gategoriâu diogelwch, am eu bod yn dal gwahanol gyfrannau o garcharorion oedd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw. Ar adeg yr arolwg hwn, roedd y nodweddion unigol fel yr isod:

- **CEM Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Aylesbury.** Sefydliad Troseddwy'r Ifanc (YOI) sy'n dal 392 o oedolion ifanc (18 i 21 oed), y mae 58 (15%) ohonynt wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw. Cyflwynwyd rhai rhaglenni achrededig i droseddwy'r rhyw.
- **CEM Bullingdon.** Carchar lleol categori B sy'n dal 1,064 o garcharorion, y mae 225 (21%) wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw. Darparwyd amrywiaeth eang o raglenni achrededig i droseddwy'r rhyw.
- **CEM Littlehey.** Carchar hyfforddi categori C sy'n dal 1,211 o garcharorion, y mae 1,174 (97%) ohonynt wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw. Darparwyd amrywiaeth eang o raglenni achrededig i droseddwy'r rhyw.
- **CEM Doncaster.** Carchar lleol categori B sy'n dal 1,080 o garcharorion, y mae 330 (30%) ohonynt wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw. Ar adeg yr arolwg, ni ddarparwyd rhaglenni achrededig ar gyfer troseddwy'r rhyw sydd wedi'u dyfarnu'n euog ond roedd y broses o gyflwyno Horizon ar fin cychwyn yn fuan ar ôl ein hymweliad.
- **CEM Brixton** Carchar adsefydlu sy'n dal 752 o garcharorion, y mae 221 (29%) ohonynt wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw. Ni ddarparwyd rhaglenni achrededig i droseddwy'r sydd wedi'u dyfarnu'n euog.

Ym mhob sefydliad, cyflawnwyd y gweithgareddau canlynol:

- Arolwg manwl o 29 o achosion, gan gynnwys asesiad yr OASys, cofnodion achos a, lle'r oedd ar gael, cyfweiliad gyda goruchwylydd y troseddwr. Roedd pob un o'r 29 achos yn mynd i gael eu rhyddhau yn ystod y tri mis ar ôl ein harolwg. Roedd pob achos wedi'i ddedfrydu i o leiaf 12 mis yn y ddalfa. Nid oeddem wedi cynnwys achosion a oedd yn ddarostyngedig i benderfyniadau rhyddhau'r Bwrdd Parôl.
- Arolygwyd 24 o achosion ychwanegol fel ymateb i faterion a oedd yn codi yn ystod yr arolwg.
- Cyfweiliadau gyda tua 15 o garcharorion yr adolygwyd eu hachosion gennym.
- Cyfweiliadau ym mhob safle gyda rheolwyr strategol, goruchwylwyr troseddwyr/swyddogion prawf a lle bo'n briodol staff CRC a staff rhaglenni/seicoleg.

Dim ond y sefydliadau hynny lle rydym wedi nodi arfer 'da' neu gadarnhaol sydd wedi'u henwi yn yr adroddiad hwn; y rheswm am hynny yw bod hyn yn gyfle i sefydliadau eraill ddefnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i ddatblygu eu harferion eu hunain.